

Aseiad diwedd y Cyfnod Sylfaen Enghreifftio deilliannau



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cymry Ifanc
Young Wales

www.cymru.gov.uk



chwarae • dysgu • tyfu
play • learn • grow

cyfnod sylfaen 3-7 foundation phase

Asesiad diwedd y Cyfnod Sylfaen

Enghreifftio deilliannau

Cynulleidfa

Penaethiaid, athrawon, ymarferwyr a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; awdurdodau lleol; undebau athrawon a chyrrff cynrychioli ysgolion; awdurdodau esgobaethol eglwysi; cyrrff cenedlaethol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn addysg.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon a'r DVD cysylltiedig yn cefnogi ymarferwyr wrth asesu plant ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Bydd yr enghreifftiau a nodir yn helpu ymarferwyr i benderfynu ar y deiliant cyd-fynd orau i blant. Mae rhai enghreifftiau o Ddeiliannau 4, 5 a 6 wedi eu cynnwys ym mhob Maes Dysgu. Mae enghreifftiau o Ddeiliant 2 wedi eu cynnwys ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Cangen y Cyfnod Sylfaen
Yr Is-adran Cwricwlwm
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays,
Caerdydd CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 6075
e-bost: foundationphaseinfo@cymru.gsi.gov.uk

Copiau ychwanegol

Ar gael drwy gysylltu:
Ffôn: 0870 242 3206 (cyfrwng Cymraeg) 0845 603 1108 (cyfrwng Saesneg)
Ffacs: 01767 375920 e-bost: dcells1@prolog.uk.com

Dogfennau cysylltiedig

Neu drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau
Cyfnod Sylfaen: Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru; Arsylwi ar Blant (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008); *Cyfnod Sylfaen: Proffil Datblygiad Plentyn – Canllawiau* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009)



Cynnwys

Cefndir	4
Cyflwyniad	6
Defnyddio'r adnodd hwn	10
Prif negeseuon	11
Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol	12
Deilliant 4 – Gofalu am Antienw	13
Deilliant 5 – Cardiau emosiwn	14
Deilliant 5 – Amser byrbryd	15
Deilliant 6 – Gofalu am y byd	16
Deilliant 6 – Ble mae'r trysor wedi'i guddio?	17
Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu	18
Deilliant 2 – Rhannu llyfr darllen	18
Deilliant 4 – Stori Bili Broga	19
Deilliant 4 – Hwyl gyda'r beic	20
Deilliant 5 – Llethr Freddie	21
Deilliant 5/6 – Stori dda oedd hon	22
Ysgrifennu	23
Deilliant 4 – Efaciwi	23
– Mae gen i gi bach del	24
Deilliant 4 – Hipo llwyd	25
Deilliant 5 – Llythyr diolch	26
– Trip i Lyn Efyrnwy	27

Deilliant 5 – Cerdyn post	28
Deilliant 6 – Paned o de	30
Deilliant 6 – Dyddiadur	32
Deilliant 6 – Fflwffyn	34
Datblygiad Mathemategol	36
Deilliant 4 – Y siop ffrwythau	36
Deilliant 4 – Gêm y broga bach	37
Deilliant 5 – Rhannu sanau	37
Deilliant 6 – Hwyl gyda rhifau	38
Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd	40
Deilliant 4 – Creu cardiau cyfarch	40
Deilliant 4 – Trafod adeiladu'r ysgol	41
Deilliant 5 – Capsiwl amser	42
Datblygiad Corfforol	43
Deilliant 5/6 – Chwarae pêl	43
Deilliant 6 – Gwneud siapiau	44
Datblygiad Creadigol	46
Deilliant 4 – Parot lliwgar	46
Deilliant 4 – Ar ysgafn droed	47
Deilliant 5 – Creu jyngl	48
Deilliant 6 – Poster parti	49
Deilliant 4, 5 a 6 – Creu cerddoriaeth	50
Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen	52
Cydnabyddiaethau	71

Cefndir

Roedd y cynigion yn nogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru *Y Wlad sy'n Dysgu: Y Cyfnod Sylfaen 3–7 oed* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003) yn cynnwys datblygu cwricwlwm oedd yn cryfhau ac yn cysylltu'r egwyddorion a'r arfer yn nogfen *Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant Cyn Oedran Addysg Orfodol* (ACCAC, 2000) â'r rhaglenni astudio a'r datganiadau ffocws yng Nghyfnod Allweddol 1 y cwricwlwm cenedlaethol, a hynny er mwyn creu cwricwlwm cyfoethog dan saith Maes Dysgu i blant yn y Cyfnod Sylfaen. Mae cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn dadlau o blaid meithrin a hybu cysylltiadau cadarnhaol rhwng y cartref a darparwyr gofal ac addysg.

Mae ymagwedd Llywodraeth Cynulliad Cymru at addysg a dysgu gydol oes wedi'i nodi yng nghyd-destun ehangach ein gweledigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yn gyffredinol. Mae gennym saith nod craidd ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Bydd y nodau hyn yn sail i holl weithgareddau'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS).

Ein nod yw sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc:

- yn cael dechrau da, ynghyd â'r seiliau gorau posibl ar gyfer tyfu a datblygu yn y dyfodol
- yn cael cyfle i fanteisio ar amrywiaeth eang o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu, gan gynnwys cyfleoedd i feithrin sgiliau personol a chymdeithasol hanfodol
- yn cael mwynhau'r iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl, gan sicrhau hefyd nad ydyn nhw'n cael eu cam-drin na'u herlid ac nad oes unrhyw un yn camfanteisio arnyn nhw
- yn cael manteisio ar amrediad o weithgareddau chwarae, gweithgareddau hamdden, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol
- yn cael gwrandawriad, yn cael eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod
- yn cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi eu lles corfforol ac emosiynol
- heb fod o dan anfantais o ganlyniad i unrhyw fath o dlodi.

Bwriad y llyfryn hwn a'r DVD cysylltiedig yw cefnogi ymarferwyr wrth iddyn nhw asesu plant ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen drwy roi enghreifftiau safonau gellir eu defnyddio wrth gymedroli. Mae'n amhosib cynnwys enghreifftiau ar gyfer pob llinyn ym mhob deilliant, ond gobeithiwn bydd yr enghreifftiau sydd wedi eu cynnwys yn help i ymarferwyr i benderfynu ar ddeilliant cyd-fynd orau i bob plentyn. Mae enghreifftiau o Ddeilliannau 4, 5 a 6 wedi eu cynnwys ym mhob Maes Dysgu. Mae enghreifftiau o Ddeilliant 2 ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu.

Cyflwyniad

Bwriad y llyfryn hwn a'r DVD cysylltiedig yw cefnogi asesiad ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Byddan nhw'n ddefnyddiol ar gyfer:

- paratoi i benderfynu ar ddeiliant sy'n cyd-fynd orau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen
- gweithio gydag ymarferwyr eraill i ddod i gyd-ddealltwriaeth o'r deilliannau o fewn y *Cyfnod Sylfaen: Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008)
- cefnogi pontio o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2.

Mae'r clipiau yn dangos enghreifftiau o gyrhaeddiad o fewn Deilliannau 2, 4, 5 a 6.

Ni ddylid defnyddio'r DVD yn unig, mae'n well ei ddefnyddio gyda'r llyfr cysylltiedig, sy'n rhoi gwybodaeth ychwanegol hanfodol am bob clip.

Wrth wyllo'r DVD ni ddylid ystyried y clipiau fel enghreifftiau o arfer da mewn strategaethau dysgu ond fel cyfleoedd i arsylwi ar gyrhaeddiad plant o fewn y ddarpariaeth barhaus, estynedig a'r tasgau â ffocws.

Gwelwn blant yn gweithio'n unigol, mewn pâr, mewn grwpiau ac weithiau fel dosbarth cyfan yn y DVD. Mae rhai o'r gweithgareddau wedi eu cychwyn gan y plant fel rhan o'r ddarpariaeth barhaus, ac weithiau mae'r ddarpariaeth hynny'n cael ei ymestyn gan yr ymarferydd.

Dro arall y tasgau â ffocws sy'n caniatáu i'r ymarferydd gael cyfle i arsylwi ar blentyn unigol o fewn grŵp neu ddosbarth. Mae'r clipiau'n rhoi pwyslais ar gyfleoedd i arsylwi plant drwy ddefnyddio'r amgylchedd dysgu dan do ac yn yr awyr agored.

Gall plant ddangos elfennau o ddeiliant penodol mewn un Maes Dysgu a deiliant gwahanol mewn Maes Dysgu arall. Mae hyn wedi ei adlewyrchu yn y clipiau, er enghraifft o fewn un gweithgaredd gall plentyn ddangos nodweddion o Ddeiliant 5 mewn Datblygiad Mathemategol ond Deiliant 4 mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu. Dylai'r ymarferwyr ddefnyddio gwybodaeth drylwyr am lefel datblygiad plentyn ar draws pob Maes Dysgu wrth iddyn nhw symud drwy'r Cyfnod Sylfaen er mwyn nodi'r deiliant sy'n cyd-fynd orau i blentyn, yn hytrach na phenderfynu ar y deiliant ar sail un neu ddau arsylwad yn y tymor olaf yn unig.

Golygwyd rhai o'r clipiau er mwyn cadw'r pwyslais ar gyrhaeddiadau'r plant.

Gallwch lywio drwy'r DVD gan ddefnyddio'r meysydd 'Deilliant' neu 'Gweithgaredd'. Mae'r llyfryn sy'n gysylltiedig â'r DVD yn rhoi mwy o wybodaeth am y Meysydd Dysgu dan sylw.

Bwriedir i'r DVD gael ei ddefnyddio mewn ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol at ddibenion hyfforddiant. Mae'n amlwg bod asesu yn y Cyfnod Sylfaen yn cynnwys llawer mwy nag y gellir ei gynnwys yn y DVD. Er mwyn gallu pennu deilliant cyd-fynd orau diwedd y Cyfnod Sylfaen bydd ysgolion wedi casglu gwybodaeth drwy asesiad parhaus o bob plentyn drwy'r Cyfnod Sylfaen ac wedi casglu tystiolaeth sylweddol fel sail i'w penderfyniad.

Mae'r tabl ar y ddwy dudalen nesaf yn dangos yr enghreifftiau o'r deilliannau enghreifftiol yn y llyfryn hwn a'r DVD sy'n gysylltiedig sy'n cyfateb i'r Meysydd Dysgu perthnasol.

Astudiaethau achos	Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol						Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu						Datblygiad Mathemategol						Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd						Datblygiad Corfforol						Datblygiad Creadigol					
	2	4	5	6	2	4	5	6	2	4	5	6	2	4	5	6	2	4	5	6	2	4	5	6	2	4	5	6								
Gofalu am Antienw		●																																		
Cardiau emosiwn			●																																	
Amser byrbryd			●																																	
Gofalu am y byd				●																																
Ble mae'r trysor wedi'i guddio?				●																																
Rhannu llyfr darllen						●																														
Stori Bili Broga										●																										
Hwyl gyda'r beic										●																										
Llethr Freddie											●																									
Stori dda oedd hon											●																									
Efaciwi												○																								
Mae gen i gi bach del												○																								
Hipo llwyd												○																								
Llythyr diolch												○																								
Trip i Lyn Efyrrwy												○																								
Cerdyn post																○																				
Paned o de																○																				
Dyddiadur																○																				

Astudiaethau achos	Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol			Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu			Datblygiad Mathemategol			Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd			Datblygiad Corfforol			Datblygiad Creadigol				
	2	4	5	6	2	4	5	6	2	4	5	6	2	4	5	6	2	4	5	6
Fflwffyn							○													
Y siop ffrwythau								●												
Gêm y broga bach								●												
Rhannu sanau								●												
Hwyl gyda rhifau									●											
Creu cardiau cyfarch										●										
Trafod adeiladu'r ysgol										●										
Capsiwl amser											●									
Chwarae pêl															●					
Gwneud siapiau															●					
Parot lliwgar																			●	
Ar ysgafn droed																			●	
Creu jyngl																			●	
Poster parti																				●
Creu cerddoriaeth																			●	●

Allwedd ● Enghreifftiau DVD ○ Enghreifftiau llyfr

Defnyddio'r adnodd hwn

Mae'r gallu i ddefnyddio a deall cysyniadau drwy siarad a gwranddo a gweithgareddau ymarferol yn cael ei werthfawrogi at ddiben asesu ac mae llai o ddisgwyliadau i gofnodi gwaith yn ffurfiol yn y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn gwahanu y mân sgiliau corfforol a chydweithrediad llygaid a llaw oddi wrth ddatblygiad llythrennedd a chysyniadau mathemategol, ac yn y Cyfnod Sylfaen gall un gael ei gyflawni heb y llall.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen bydd ymarferwyr yn asesu plant yn erbyn y deilliannau diwedd cyfnod drwy arsylwi arnyn nhw yn ystod eu gwaith bob dydd yn y dosbarth ac yn gwerthuso eu cyrhaeddiad. Fel ym mhob asesiad gan yr ymarferydd dylen nhw ddefnyddio eu barn broffesiynol i nodi deilliant cyd-fynd orau i bob plentyn ym mhob Maes Dysgu. Nid oes disgwyl i blentyn gyrraedd pob llinyn mewn deilliant i farnu fod y deilliant hwnnw yn cyd-fynd orau iddo. Er enghraifft gall plentyn gyfateb i sawl llinyn o fewn Deilliant 5 ar sawl achlysur ond dal gael ei roi ar Ddeilliant 6 gan fod y mwyafrif o'r asesiad yn dyfarnu fod Deilliant 6 yn adlewyrchiad gwell o'i gyflawniad.

O fewn yr un gweithgaredd gall plant ddangos elfennau o ddeilliant neilltuol mewn un Maes Dysgu a deilliant gwahanol mewn Maes Dysgu arall, er enghraifft gall plentyn ddangos arwyddion o Ddeilliant 5 mewn Datblygiad Mathemategol tra fod ei Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn dangos Deilliant 4.

Bydd yr ymarferydd yn gosod deilliant a fydd yn cyd-fynd orau i bob plentyn unigol.

Ysgolion fydd yn penderfynu sut maen nhw am gofnodi canlyniadau asesiadau mewnol. Mae gofyn stadudol ar ysgolion i adrodd i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ganlyniadau Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Diwylliannol, Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol. Bydd trefniadau mewn lle ar gyfer hyn, ond bydd angen adrodd i rieni/gofalwyr a chofnodi yn lleol ar safonau yn yr holl Feysydd Dysgu, a bydd disgwyl i ysgolion wneud eu trefniadau ei hunain i reoli hyn.

Prif negeseuon

Nod y llyfryn hwn a'r DVD cysylltiedig yw cefnogi ymarferwyr wrth iddyn nhw asesu plant ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen drwy roi enghreifftiau safonau gellir eu defnyddio wrth gymedroli. Mae'n amhosib cynnwys enghreifftiau ar gyfer pob llinyn ym mhob deiliant, ond gobeithiwn bydd yr enghreifftiau sydd wedi eu cynnwys yn helpu ymarferwyr i benderfynu ar ddeiliant cyd-fynd orau pob plentyn. Mae enghreifftiau o Ddeilliannau 4, 5 a 6 wedi eu cynnwys ym mhob Maes Dysgu. Mae enghreifftiau o Ddeiliant 2 ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu.

Yn y DVD gwelwn glipiau o blant Blwyddyn 2 yn yr ysgolion peilot yn dysgu drwy brofiad uniongyrchol. Mae'r DVD yn cynnwys enghreifftiau o blant sydd wedi cyrraedd Deiliant 2, 4, 5 a 6.

Bydd yr ymarferwyr wedi bod yn casglu gwybodaeth a thystiolaeth am y plant drwy gydol y Cyfnod Sylfaen a dim ond rhan fach o'r asesiad sydd wedi ei gynnwys yn y DVD. Cyn edrych ar y deilliannau bydd yr ymarferwyr yn dwyn ynghyd yr holl dystiolaeth maen nhw wedi eu casglu dros y blynyddoedd mae'r plant wedi bod yn dilyn y *Cyfnod Sylfaen: Fframwaith ar gyfer Dysgu plant 3 i 7 oed yng Nghymru*. Byddan nhw wedyn yn dod i farn ar y deiliant sydd yn cyd-fynd orau i'r plentyn unigol.

Mae'r deilliannau wedi eu bwriadu ar gyfer diwedd cyfnod a dim ond ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ddylai plentyn gael ei asesu yn eu herbyn.

Yn y clipiau DVD gwelwn blant yn gweithio yn unigol, mewn parau, mewn grwpiau ac weithiau fel dosbarth cyfan. Ambell waith mae'r gweithgaredd wedi ei ysgogi gan y plentyn fel rhan o ddarpariaeth barhaus y dosbarth, ac weithiau gwelwn y ddarpariaeth honno wedi ei chyfoethogi gan yr ymarferydd. Dro arall mae'n dasg â ffocws sydd yn galluogi'r ymarferydd i arsylwi ar blentyn unigol o fewn grŵp neu ddosbarth. Mae amryw o'r tasgau yn digwydd yn yr ardal ddysgu tu allan.

Mae enghreifftiau o waith ysgrifenedig plant mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen wedi eu cynnwys yn y llyfryn hwn. Am eu bod nhw'n cael eu hasesu trwy ystyried gwaith ysgrifenedig a wnaed gan y plant dros gyfnod o amser, nid ydym wedi cynnwys ffilm o'r plant yn ysgrifennu'r gwaith ar y DVD.

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

Ym maes Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol, mae'r plant yn dysgu amdanyn nhw eu hunain, eu perthynas â phlant eraill ac oedolion yn y teulu a'r tu allan i'r teulu, diwylliant unigryw Cymru a diwylliannau eraill sy'n rhan o'r gymdeithas amrywiol yng Nghymru. Cyflwynir y cysyniadau o degwch a chyfiawnder a chaiff y plant eu hannog i feddwl am deimladau pobl eraill a'u parchu. Mae gan bwysigrwydd cymhelliant, dyfalbarhad, hunan-barch ac agwedd gadarnhaol at ddysgu ran bwysig i'w chwarae o ran dysgu a datblygiad plant o fewn y Cyfnod Sylfaen.

Mae lles yn rhan annatod o ddysgu. Mae'n ymwneud ag anghenion sylfaenol plant o ran diogelwch eiddo a diogelwch personol, bwyd a lloches, gwres a chariad, ond mae hefyd yn gysylltiedig â pha mor gysurus mae plant yn teimlo gyda'u hunain a'u hamgylchedd. Cydnabyddir bellach bod lles yn hanfodol er mwyn dod yn ddysgwr effeithiol.

Deilliant 4

Gofalu am Antienw

Mae'r plant yn aml yn cael cyfle i gynnal sgysiau gyda'r ymarferydd i drafod pynciau llosg sydd yn codi yn y dosbarth neu'r ysgol. Bydd Antienw y ddol o Affrica yn ymuno gyda'r grŵp pan mae'r ymarferydd am drafod pwnc neilltuol.



Maes Dysgu ychwanegol:

Sgiliau Iaith,
Llythrennedd a
Chyfathrebu

Mae'r dosbarth yn aml yn defnyddio'r ardal dysgu tu allan i gynnal sgwrs. Yn ystod y sesiynau hyn maen nhw'n trafod pob math o bynciau ac emosiynau. Yn aml mae Antienw yn ymuno gyda'r plant pan mae'r ymarferydd am drafod pwnc arbennig. Heddiw mae Antienw wedi dod i'r ysgol yn gwisgo sbectol am y tro cyntaf ac mae hyn yn gyfle i'r grŵp drafod sut dylid ymddwyn at ein gilydd ac at gyfoedion sydd ychydig yn wahanol. Mae pob un yn canolbwyntio ac yn aros eu tro wrth ateb cwestiynau'r ymarferydd. Maen nhw'n gwybod beth sy'n gwneud pobl yn hapus ac yn drist ac maen nhw'n barod i ddweud sut bydden nhw'n helpu i wneud rhywun trist yn hapus.

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi'r grŵp ar Ddeilliant 4 mewn Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.

Meini prawf llwyddiant y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd:

- byddant yn dangos hunanreolaeth gynyddol a byddant yn gallu aros i'w hanghenion gael eu diwallu
- byddant yn gallu canolbwyntio ar dasg, a bydd ganddynt hoffterau a chas bethau pendant.

Deilliant 5

Cardiau emosiwn

Mae'r ymarferydd yn defnyddio cardiau emosiwn i sbarduno trafodaeth gyda'r plant am eu hemosiynau.



Maes Dysgu ychwanegol:

Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Daeth yr ymarferydd a chardiau emosiynau gyda hi y bore yma ac mae am drafod teimpladau gyda'r plant. Gwelwn hi yn gofyn i'r grŵp beth sy'n eu gwneud yn swil, yn ofnus ac yn gyffrous. Mae Myfanwy yn hyderus wrth iddi rannu ei theimpladau hi drwy sôn am ei swildod ar lwyfan wrth berfformio gyda'r grŵp ac mae'n amlwg yn gwybod beth ydy bod yn ofnus pan mae ei mam yn ddig am iddi adael llanast yn ei 'stafell wely. Gallwn deimlo ei chyffro wrth iddi sôn am y prosiect newydd ar yr Aifft mae ar fin dechrau arno dros wyliau'r haf.

Wrth wrando ar Myfanwy yn siarad cawn gip olwg ar ei Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu. Mae'n gwrando'n ofalus drwy gydol y sesiwn ac mae'n siarad yn glir gyda hyder cynyddol wrth ymateb i gwestiynau. Gall addasu ei ffordd o siarad i fodloni ei chynulleidfa gan gynnig manylder disgrifiadau. Mae'n ymateb i'r testun dan sylw ac yn mynegi hoffter gan amrywio ei defnydd o eirfa a lefel manylder.

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi Myfanwy ar Ddeilliant 5 mewn Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.

Meini prawf llwyddiant y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd:

- bydd ganddynt ddealltwriaeth glir o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir, a byddant yn fwy ymwybodol o deimpladau, safbwyntiau . . . pobl eraill
- byddant yn adnabod eu teimpladau a gallant eu mynegi'n briodol.

Deilliant 5

Amser byrbryd

Mae'r plant yn cael byrbryd bob bore. Bydd un plentyn yn rhannu'r ffrwythau a phawb yn aros eu tro. Mae'n gyfle i'r plant gael sgwrs dawel ac i'r ymarferydd drafod rhannu teg a bwyta'n iach gyda'r plant.



Maes Dysgu ychwanegol:

Sgiliau Iaith,
Llythrennedd a
Chyfathrebu

Un o hoff amseroedd y plant yn ystod y dydd yw amser byrbryd. Mae'r ymarferydd yn gwneud yn fawr o'r amser yma ac yn eistedd gyda'r plant i sgwrsio. Mae'r plant yn deall yr angen am fwyta ac yfed yn briodol er mwyn cadw eu hunain yn iach. Gwelwn Myfanwy yn rhannu darnau o ffrwythau o amgylch y bwrdd a phob un yn diolch iddi wrth dderbyn darn o ffrwyth. Ar ôl iddi orffen mae'r plant yn sylweddoli fod un ohonyn nhw wedi cael darn llai na'r gweddill ond mae Myfanwy yn ymresymu gyda'r ymarferydd wrth benderfynu ar y ffordd orau i rannu'r ffrwythau fel fod pawb yn cael chwarae teg. Mae'n dangos aeddfedrwydd a medrusrwydd wrth gynnig ateb a fydd yn bodloni'r grŵp cyfan.

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi Myfanwy ar Ddeilliant 5 mewn Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.

Meini prawf llwyddiant y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd:

- byddant wedi deall y cysyniad o chwarae teg, a bydd ganddynt ddealltwriaeth o reolau a pham y mae'r rheolau hynny wedi'u llunio
- byddant yn deall y bydd angen iddynt fwyta ac yfed yn briodol er mwyn cadw eu cyrff yn iach.

Deilliant 6

Gofalu am y byd

Mae'r plant yn cael cyfle i drafod newyddion y byd yn gyson ac mae ganddyn nhw ddiddordeb mewn cynhesu byd eang a sut gallan nhw helpu i gael byd tecach.



Meysydd Dysgu ychwanegol:

Sgiliau Iaith,
Llythrennedd a
Chyfathrebu

Gwybodaeth a
Dealltwriaeth
o'r Byd

Wrth eistedd yn nghoedwig yr ysgol dechreuodd grŵp o blant drafod yr amgylchedd a sut i wella'r byd gyda'r ymarferydd. Yn ddiweddar bu'r dosbarth yn trafod cynhesu byd eang ac mae gan y plant ddiddordeb mawr mewn ceisio atal hyn. Maen nhw'n cynnig ffyrdd pendant a all wneud y byd yn lle gwell i fyw ynddo i'r dyfodol. Yn y sesiwn holi ac ateb gwelwn y plant yn cynnig sylwadau ar yr hyn fydden nhw'n newid pe baen nhw'n arweinwyr byd. Cynnig Madeline ydy gwared pob rhyfel a byw mewn heddwch. Yn dilyn trafodaeth bellach yn y grŵp mae hi'n sôn am y stori glywodd gan ei mam am golled teuluol mewn cyfnod o ryfel ac mae'n dwyn ar y profiad yma wrth ymresymu. Mae Gethin am gael gwared ar ddefnyddio ceir ac mae'n gallu egluro'n union pam mae am wneud hynny ac effaith y mwg ar yr amgylchedd.

Mae'r plant yn defnyddio geirfa estynedig wrth drin a thrafod y pwnc.

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi Gethin a Madeline ar Ddeilliant 6 mewn Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.

Meini prawf llwyddiant y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd:

- byddant yn deall bod gan bobl wahanol hoffterau, safbwyntiau a chredoau, a bydd ganddynt ddealltwriaeth o'r modd y dylent ymwneud ag eraill o safbwynt moesegol a moesol
- bydd y plant wedi symud ymlaen i allu gweld pethau o safbwynt plant eraill ac oedolion.

Deilliant 6

Ble mae'r trysor wedi'i guddio?

Mae gan y plant helpa drysor i'w dilyn ar dir yr ysgol. Maen nhw'n defnyddio map a greodd un o'r plant mewn sesiwn flaenorol ond heddiw mae'r ymarferydd wedi gosod trysor ar ddiwedd yr helfa. Maen nhw'n gweithio fel grŵp i ddilyn y map a dod o hyd i'r trysor.



Meysydd Dysgu ychwanegol:

Gwybodaeth a
Dealltwriaeth
o'r Byd

Sgiliau Iaith,
Llythrennedd a
Chyfathrebu

Mae'r dosbarth wedi bod wrthi'n creu mapiau o dir yr ysgol gan ddefnyddio'r buarth, y cae chwarae a'r goedwig. Ar ôl edrych arnyn nhw'n fanwl mae'r ymarferydd wedi dewis defnyddio map Madeline ar gyfer sesiwn gyfeiriannu. Mae'r daith yn dechrau yn y goedwig wrth i'r grŵp fynd i chwilio am y trysor. Mae cryn drafod ar ddechrau'r gweithgarwch ai fel unigolion neu fel grŵp maen nhw am weithio. Penderfyniad y plant oedd mai gweithio fel grŵp fyddai'n talu orau. Cyn cychwyn y daith mae Gethin yn edrych ar ei fap ac yn sylwi'n syth fod trysor ar ddiwedd y daith y tro hwn ac mae'n darllen ei fap yn gyflym i benderfynu pa ffordd mae'r llwybr yn mynd.

Mae'r grŵp yn dilyn y cyfarwyddiadau ar y map ac yn fuan iawn maen nhw'n darganfod y cliwiau sydd wedi'u gosod ar y coed ym mhen draw cae chwarae'r ysgol. Fel tystiolaeth eu bod wedi darganfod pob cliw mae'r plant yn casglu sticeri yn y llyfr cofnod. Daw'r map â nhw'n ôl i fewn i'r goedwig ac at y trysor. Mae'r grŵp yn cydweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn helpu'i gilydd ar hyd y daith. Mae Gethin a Connor yn dangos medrusrwydd wrth ddatrys problemau ac maen nhw'n dyfalbarhau a chanolbwyntio gan gymhell gweddill y criw i'w dilyn. Gethin ydy'r cyntaf i gyrraedd y trysor a dydy o fawr o dro yn trin y pwli i ddod a'r bwced i lawr a rhannu'r afalau!

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi Gethin ar Ddeilliant 6 mewn Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.

Meini prawf llwyddiant y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd:

- byddant yn gallu dangos eu bod yn medru dyfalbarhau, canolbwyntio a chymhell
- bydd y plant yn dangos medrusrwydd wrth adnabod problemau a chanfod ffyrdd o'u datrys.

Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mae profiadau iaith yn amgylchynu plant yn eu holl weithgareddau. Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau drwy siarad, gwranddo a thrwy gyfathrebu ag eraill. Wrth gyfathrebu eu meddwl, anghenion, profiadau a theimladau maen nhw'n datblygu'r ddawn i siarad, gwranddo a chysylltu a'u cyfoedion a phobl eraill tra mae'r sgil corfforol o lawysgrifen ym Maes Dysgu Datblygiad Corfforol yn cychwyn.

Mae'n bwysig ystyried bod y gwahanol elfennau iaith a llythrennedd yn gysylltiedig â'i gilydd a bod diben iddyn nhw. Bydd sgiliau iaith, darllen ac ysgrifennu yn datblygu gyda'i gilydd, ac mae cysylltiad rhyngddydd nhw. Ni ddylid eu haddysgu ar wahân. Datblygir y sgiliau llythrennedd hyn trwy fywyd go iawn a phrofiadau sy'n ystyrlon i'r plant.

Deilliant 2

Rhannu llyfr darllen

Mae Tom a'r ymarferydd yn rhannu llyfr yng ngardd ddarllen yr ysgol. Rhan o'r gyfres ddarllen sydd ar gael yn y dosbarth ydy'r llyfr a ddewisodd. Mae ganddo ddiddordeb yn Moli yn dysgu sut i nofio gan ei fod ei hunan yn cael gwersi nofio.



Bachgen bach swil ydy Tom sydd wedi dysgu'r Gymraeg ar ôl dod i'r ysgol. Dim ond yn yr ysgol mae'n clywed yr iaith ac yn cael cyfle i'w hymarfer. Mae wrth ei fodd yn cael rhannu llyfr gydag oedolyn yng ngardd ddarllen yr ysgol. Er ei fod yn hoff iawn o lyfrau a storïau gwelwn fod angen llawer o gymorth ar Tom. Mae'n cofio enw'r prif gymeriad ond yn cael trafferth i gofio enwau rhai o'r cymeriadau eraill yn y stori. Mae'n adnabod geiriau cyfarwydd mewn testun syml. Wrth i'r ymarferydd ei holi mae Tom yn ateb gyda geiriau unigol yn unig.

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi Tom ar Ddeilliant 2 mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu.

Meini prawf llwyddiant y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd:

- bydd y plant yn sgwrsio'n syml gan hepgor cysyllteiriau o bryd i'w gilydd a gofyn cwestiynau'n aml, e.e. 'pam?' a 'sut?'
- byddant yn ymateb i gyfarwyddiadau, cwestiynau a symbyliadau eraill
- bydd y plant yn edrych ar lyfrau gydag oedolyn neu heb oedolyn a byddant yn dangos diddordeb yn eu cynnwys.

Deilliant 4

Stori Bili Broga

Newydd ymuno a'r dosbarth mae Leon ac mae'r Gymraeg yn newydd iddo. Gwelwn ef yn rhoi ymgais dda iawn ar ddarllen ei lyfr gan ddefnyddio ei wybodaeth o seiniau a symbolau.



Dysgwr ydy Leon sydd wedi ymuno â'r dosbarth ym Mlwyddyn 2. Mae'n darllen yn glywadwy gan ddefnyddio ei wybodaeth o lythrennau a'r berthynas rhwng seiniau a symbolau i ddarllen geiriau a chadarnhau ystyr. Mae'n rhoi cynnig da ar ddarllen gyda chymorth yr ymarferydd.

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi Leon ar Ddeilliant 4 mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu.

Meini prawf llwyddiant y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd:

- bydd y plant yn siarad yn glywadwy, gan gyfleu ystyr i ystod o wrandawyr
- byddant yn adnabod geiriau cyfarwydd mewn testunau syml ac, wrth ddarllen yn uchel, byddant yn defnyddio eu gwybodaeth o lythrennau a'r berthynas rhwng seiniau a symbolau i ddarllen geiriau a chadarnhau ystyr.

Deilliant 4

Hwyl gyda'r beic

Mae'r plant wrth eu bodd yn cael stori. Yma gwelwn grŵp yn trafod llyfr gyda'r ymarferydd gan ddatblygu eu sgiliau llythrennedd ac yna'n ymestyn y syniadau i'w profiadau eu hunain wrth chwarae gyda beic.



Maes Dysgu ychwanegol:

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Mae'r dosbarth yn hoffi gwranddo ar stori a heddiw penderfynodd yr ymarferydd ddewis y llyfr *Bydd yn ofalus Ceri Ann* gan Loreen Williams (Gwasg Gomer, 1993). Mae'r plant yn arfer trafod storïau mewn llyfrau ffuglen ac yn barod iawn i ymateb. Dysgwr ydy Leon sydd wedi ymuno â'r dosbarth ym Mlwyddyn 2 ac mae angen cymorth a chefnogaeth arno wrth iddo ddatblygu ei hyder yn y Gymraeg ac ymateb i gwestiynau yr ymarferydd. Mae'n gwranddo'n astud ar y stori ac yn siarad yn glywadwy gan ddangos ei fod yn gallu ymestyn ei syniadau. Mae'n cynnwys manylion yn ei ymatebion wrth ddisgrifio sefyllfa. Mae'n gwranddo ar weddill y grŵp ac mae'n dwyn i gof yr ymadrodd 'padlo fel y gwynt' ac yn ei ddefnyddio yn bwrsol yn ei stori pan mae'n disgrifio ei hunan yn cael damwain ar ei feic.

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi Leon ar Ddeilliant 4 mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu.

Meini prawf llwyddiant y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd:

- byddant yn dechrau ymestyn eu syniadau neu eu hanesion trwy gynnwys rhai manylion
- bydd y plant yn gwranddo ar eraill, gan ymateb yn briodol fel rheol.

Deilliant 5

Llethr Freddie

Fel rhan o ddarpariaeth barhaus y dosbarth mae ardal ymchwil wedi ei gosod. Mae'r plant wedi bod wrthi dros rai wythnosau yn chwarae yn yr ardal gan ddyfeisio gemau wrth anfon ceir lawr llethrau o wahanol oledd ac arwynebedd. Mae'r ymarferydd yn ymuno gyda'r grŵp ac yn eu holi i weld beth ddarganfu'r plant drwy'r ddarpariaeth barhaus cyn iddi gyfoethogi'r ddarpariaeth honno gydag arwynebedd newydd i'r llethr.



Maes Dysgu ychwanegol:

Datblygiad
Mathemategol

Mae Theo yn gallu egluro beth mae wedi ei ddarganfod drwy chwarae gyda'r ceir ar y llethrau. Mae'n damcaniaethu am y pellter mae'r car yn debygol o gyrraedd wrth ei anfon lawr llethr o oledd arbennig. Mae'r ymarferydd yn gosod her ychwanegol iddo i gynllunio llethr beic mewn parc hamdden a fydd yn rhoi digon o hwyl i'r plant heb iddyn nhw gael damwain. Aiff Theo a Daisy ati i ddefnyddio rhaglen bwrpasol ar y cyfrifiadur i weithio allan y goledd gorau ac wedi penderfynu maen nhw'n dychwelyd i'r grŵp i egluro yn syml pa ongl ddylai Freddie ei ddefnyddio ar y llethr newydd a pham. Mae Theo'n siarad yn glir gan ddefnyddio manylion perthnasol wrth ddisgrifio'r hyn a ddarganfu.

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi Theo ar Ddeilliant 5 mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu.

Meini prawf llwyddiant y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd:

- bydd y plant yn siarad yn glir â hyder cynyddol a byddant yn defnyddio geirfa sy'n ehangu
- byddant yn dangos ymwybyddiaeth o anghenion y gwrandäwr trwy gynnwys manylion perthnasol
- byddant yn deall ac yn cyfleu gwybodaeth syml
- byddant fel rheol yn gwrandao'n ofalus ac yn ymateb i ystod ehangach o symbyliadau.

Deilliant 5/6

Stori dda oedd hon

Mae Dion a Meleri'n darllen llyfr gyda'i gilydd. Wrth i'r ymarferydd ymuno â nhw mae'r ddau'n ailadrodd y stori wrthi. Gwelwn nhw'n egluro ambell gymal drwy ddefnyddio enghreifftiau o'u profiad eu hunain.



Maes Dysgu ychwanegol:

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

Mae Dion a Meleri yn trafod y llyfr stori *Rydyn Ni'n Mynd i Hela Arth* gan Michael Rosen (addaswyd/cyfieithwyd gan Mair Treharne) (Uned Iaith/CBAC, 1999). Dyma'r tro cyntaf i'r plant weld y llyfr. Mae'r ymarferydd yn cyflwyno'r llyfr i'r ddau ac yna'n eu gadael ar eu pennau eu hunain er mwyn iddyn nhw gael cyfle i drin a thrafod y stori gyda'i gilydd. Ar ôl peth amser daw hi'n ôl i sgwrsio gyda'r ddau am gynnwys y llyfr. Mae'n amlwg wrth iddi eu holi fod Dion wedi deall a mwynhau'r stori. Mae'n ymateb yn hyderus gan ddefnyddio geirfa ddiddorol sy'n dangos ymwybyddiaeth o anghenion y gwrandäwr. Mae'n egluro pwyntiau drwy gynnig enghreifftiau sydd o fewn ei brofiad personol i gefnogi ei atebion, er enghraifft pan mae'n sôn am yr olion traed yn yr eira, tractor yn y mwd a'r llyn wedi rhewi. Mae'r ddau yn cyflwyno rhediad y stori ac yn gallu ymresymu pan mae'r ymarferydd yn holi ymhellach.

Mae Dion yn ymateb ac yn parchu cyfraniad Meleri at y drafodaeth ac mae'n canolbwyntio ar y dasg dan sylw. Ar ôl edrych ar yr holl dystiolaeth sydd ganddi dros y pedair mlynedd bu Dion yn yr ysgol, mae'r ymarferydd yn dyfarnu mai Deilliant 5 sydd yn cyd-fynd orau iddo er ei fod yn dangos elfennau o Ddeilliant 6.

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi Dion a Meleri ar Ddeilliant 5 gydag elfennau o Ddeilliant 6 mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu.

Meini prawf llwyddiant y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd:


- bydd y plant yn siarad yn glir â hyder cynyddol
- byddant yn darllen testunau syml yn gywir ar y cyfan
- byddant yn dangos dealltwriaeth o ddigwyddiadau neu syniadau pwysig mewn storïau
- bydd y plant yn dechrau addasu eu ffordd o siarad i fodloni gofynion y gynulleidfa, gan amrywio eu defnydd o eirfa a lefel y manylder
- byddant yn ymateb i destunau ac yn mynegi hoffterau.

Ysgrifennu

Deiliant 4

Efaciwi

Ar ôl bod yn trafod bywyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd, mae Matty'n mynd ati i gofnodi beth fyddai ganddi yn ei bag wrth iddi ddychmygu ei hun fel efaciwi yn mynd i aros yn y wlad o'r dref lle mae hi'n byw.




Mae Matty'n dechrau ysgrifennu mewn modd confensiynol ac yn arbrofi gyda llythrennau. Gall ddefnyddio ei hymwybyddiaeth o seiniau i ffurfio geiriau sydd yn ddealladwy i'r darlennydd ac mae'n cyfnerthu y gwaith gyda lluniau manwl o'r eitemau.

Deilliant 4

Mae gen i gi bach del

Roedd Matty'n meddwl y byd o'r ci bach ac am dynnu ei lun ac ysgrifennu amdano.



Mae Matty'n cyfleu ystyr i'r darllenwr drwy gyfrwng geiriau a brawddegau syml. Mae'n ffurfio llythrennau yn glir ac mae'n dangos ei bod yn dechrau deall sut mae brawddegau'n gweithio. Ffeithiau am y ci bach yn unig sydd yma ac nid ydy hi eto wedi dechrau defnyddio geiriau i greu effaith na chysylltu brawddegau.

Mae'r enghraifft hon yn awgrymu bod ysgrifennu Matty ar Ddeilliant 4 y Cyfnod Sylfaen.


Meini prawf llwyddiant y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd:

- bydd gwaith ysgrifenedig y plant yn cyfleu ystyr trwy gyfrwng geiriau ac ymadroddion syml
- yn eu gwaith darllen neu eu gwaith ysgrifenedig, byddant yn dechrau dangos dealltwriaeth o'r modd y mae brawddegau'n gweithio
- bydd y plant yn ysgrifennu llythrennau sydd wedi'u ffurfio'n glir ac sy'n wynebu'r cyfeiriad cywir
- byddant yn dechrau deall y gwahanol ddibenion a swyddogaethau sy'n perthyn i iaith ysgrifenedig.

Deilliant 4

Hipo llwyd

Wedi trip i sŵ Caer roedd Joshua am sôn wrth bawb am yr hipo llwyd a welodd yng nghanol y mwd.



Mae Joshua'n dechrau ysgrifennu'n annibynnol ac yn adeiladu geiriau o'r wybodaeth sydd ganddo o seiniau llythrennau. Ar y cyfan mae'n ffurfio llythrennau yn gywir ac maen nhw'n wynebu'r ffordd gywir er fod y maint yn amrywio yma ac acw drwy'r darn. Ffeithiau yn unig mewn brawddegau byr a geir yn y darn ysgrifenedig. Drwy hyn mae Joshua yn dangos ei fod yn dechrau deall sut mae brawddegau'n gweithio.

Mae'r enghraifft hon yn awgrymu bod ysgrifennu Joshua ar Ddeilliant 4 y Cyfnod Sylfaen.


Meini prawf llwyddiant y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd:

- bydd gwaith ysgrifenedig y plant yn cyfleu ystyr trwy gyfrwng geiriau ac ymadroddion syml
- yn eu gwaith darllen neu eu gwaith ysgrifenedig, byddant yn dechrau dangos dealltwriaeth o'r modd y mae brawddegau'n gweithio
- bydd y plant yn ysgrifennu llythrennau sydd wedi'u ffurfio'n glir ac sy'n wynebu'r cyfeiriad cywir
- byddant yn dechrau deall y gwahanol ddibenion a swyddogaethau sy'n perthyn i iaith ysgrifenedig.

Deilliant 5

Llythyr diolch

Ysgogwyd y llythyr diolch gan ymweliad warden RSPB lleol â'r ysgol cyn i'r plant fynd ar ymweliad â'r warchodfa adar ar eu trip haf.



Mae Ruth yn dangos ei bod yn ymwybodol o sut dylai llythyr gael ei gyflwyno. Mae'n defnyddio geiriau priodol a diddorol wrth anfon ei diolch at Janet. Mae'r prif lythrennau a'r atalnodau'n ymddangos yn gyson gywir drwy'r llythyr ac mae hi'n sillafu geiriau syml yn gywir. Mae ei llawysgrifen yn ddealladwy ac mae'r llythrennau'n cael eu ffurfio'n gywir, yn wynebu'r ffordd iawn ac yn gyson o ran maint.

Mae'r enghraifft hon yn awgrymu bod ysgrifennu Ruth ar Ddeilliant 5 y Cyfnod Sylfaen.

Deilliant 5

Trip i Lyn Efyrrwy

Darn sydd yn adrodd hanes trip Ruth i'r warchodfa adar ydy hwn. Bu'r dosbarth yn trafod eu profiadau wrth fynd o gwmpas y warchodfa a sbardunodd hyn Ruth i fynd ati i ysgrifennu eu phrofiadau ar gyfer eu rhannu gyda nain a taid.

Enw: Ruth

Dyddiad: mehefin 20

Ein trip i Lyn Efyrrwy



Roeddwn i wedi mynd i Lyn Efyrrwy gwelais
i y llyn. Roeddwn i llyn yn hyffordd iawn Mae
Bsp b yn edrych ar ôl y adar ac yn gweid yn
siwr mae neb yn hadd y adar i gyd ddim
yn adar bach yn unig Roeddwn i wedi mynd
i gweld y tai yr adar a y Pryfed
bach fel pili-pala a Buch gach gota
Roeddwn i wedi cael pic nic Roeddwn i
wedi mynd am dro gyda Mr Hughes o
gwmpas y llyn ond mae pentref o dan y llyn

Mae'r ysgrifennu'n drefnus gyda'r sillafu a'r atalnodi'n gywir ar y cyfan. Mae'n datblygu ei syniadau ac yn cadw rhediad i'r stori gan roi ymgais ar amrywio ychydig ar ddechrau brawddegau. Mae'r llythrennau wedi eu ffurfio'n gywir ac maen nhw'n gyson o ran maint. Mae elfennau yma sy'n dangos bod Ruth yn gweithio o fewn Deilliant 6 ond bernir mai Deilliant 5 sydd yn cyd-fynd orau iddi gan fod y brawddegau'n undonog ar brydiau ac mae yma ailadrodd drwy'r darn.

Mae'r enghraifft hon yn awgrymu bod ysgrifennu Ruth ar Ddeilliant 5 y Cyfnod Sylfaen.


Meini prawf llwyddiant y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd:

- bydd gwaith ysgrifenedig y plant yn cyfleu ystyr
- byddant yn defnyddio geirfa briodol a diddorol gan ddangos peth ymwybyddiaeth o'r darlennydd
- bydd syniadau'n cael eu datblygu'n aml ar ffurf dilyniant o frawddegau cysylltiedig
- bydd priflythrennau ac atalnodau llawn yn cael eu defnyddio â rhywfaint o gysondeb
- bydd geiriau syml yn cael eu sillafu'n gywir fel rheol, ond os byddant wedi'u sillafu'n anghywir byddant yn ddealladwy o safbwynt ffonig
- bydd llythrennau'n cael eu ffurfio'n gywir a byddant yn gyson o ran maint.

Deilliant 5

Cerdyn post

Ar ôl rhannu stori gyda'r dosbarth sylweddolodd yr ymarferydd fod y plant wedi creu cyfle iddyn nhw'u hunain ail-chwarae'r stori yn y tŷ bach twt. Gwelodd gyfle i gyfoethogi'r ddarpariaeth barhaus oedd yn yr ardal hon o'r dosbarth drwy ychwanegu llyfrau teithio o'r siop gwyliau lleol a chardiau post o leoedd difyr at y papur newydd a'r llyfr ffôn oedd eisoes ar y silff yn ardal y gegin. Datblygodd chwarae'r plant yn fuan iawn a chanlyniad y cyfoethogi hwn oedd ymdrech Cian i gymryd arno rôl Babi Tedi a mynd ati i ysgrifennu cerdyn post at Mrs Tedi ei fam.



Mae Cian yn gwybod bod yn rhaid ysgrifennu'n gynnil ar gerdyn post gan gynnwys cymaint o fanylion a phosibl. Mae'n defnyddio geirfa briodol a diddorol gan gadw'r darlennydd mewn cof. Mae'n dechrau defnyddio geiriau i greu effaith, er enghraifft 'enfawr'. Mae'r rhan fwyaf o'r llythrennau'n gyson o ran maint ac mae'r ysgrifennu yn ddarllenadwy.

Mae'r enghraifft hon yn awgrymu bod ysgrifennu Cian ar Ddeiliant 5 y Cyfnod Sylfaen.


Meini prawf llwyddiant y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd:

- bydd gwaith ysgrifenedig y plant yn cyfleu ystyr
- byddant yn defnyddio geirfa briodol a diddorol gan ddangos peth ymwybyddiaeth o'r darlennydd
- bydd syniadau'n cael eu datblygu'n aml ar ffurf dilyniant o frawddegau cysylltiedig
- bydd priflythrennau ac atalnodau llawn yn cael eu defnyddio â rhywfaint o gysondeb
- bydd geiriau syml yn cael eu sillafu'n gywir fel rheol, ond os byddant wedi'u sillafu'n anghywir byddant yn ddealladwy o safbwynt ffonig
- bydd llythrennau'n cael eu ffurfio'n gywir a byddant yn gyson o ran maint.

Deiliant 6

Paned o de


Mae caffi Sali Mali yn rhan o'r ddarpariaeth barhaus sydd yn yr ysgol ac mae'r plant yn gwybod ei fod yn sefydlog a gallan nhw fynd yno i atgyfnerthu eu sgiliau'n gyson. Mae llyfr ryseitiau yn y caffi ac mae'r plant wedi arfer dilyn cyfarwyddiadau i wneud teisennau gyda'r ymarferydd. Ar ôl un o'r sesiynau gwneud teisen roedd Ruth am gychwyn llyfr ryseitiau ei hunan yn y caffi a gan eu bod wedi defnyddio clip fwrdd yn ddiweddar ar daith allan o'r ysgol penderfynodd byddai'n hoffi defnyddio taflen tebyg i ysgrifennu cyfarwyddiadau ar sut i wneud paned o de.



Cyfarwyddiadau

Sut i wneud paned o de

1. Rhwch dŵr oer yn y tecell.
2. Rhwch y tecell ymben.
3. Gadewch i'r tecell ferwi.
4. Rhwch un neu dau bag te yn y tebot.
5. Tywalltwch y dŵr poeth i'r tebot o'r tecell.
6. Rhwch y llaeth yn y cwpan.
7. Tywalltwch y te o'r tebot i'r cwpan.
8. Yfwch y te.



Mae'r gwaith ysgrifennu yn drefnus ac yn glir. Mae'n defnyddio nodweddion ysgrifennu ffeithiol yn gywir ac mae'r atalnodi a'r sillafu'n gywir ar y cyfan. Mae'r llawysgrifen yn daclus a darllenadwy ac mae'r camau wedi eu nodi'n drefnus.

Mae'r enghraifft hon yn awgrymu bod ysgrifennu Ruth ar Ddeiliant 6 y Cyfnod Sylfaen.

Meini prawf llwyddiant y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd:


- bydd gwaith ysgrifenedig y plant yn aml yn drefnus, yn ddychmygus ac yn glir
- bydd prif nodweddion gwahanol ffurfiau o ysgrifennu'n cael eu defnyddio'n briodol
- bydd geiriau'n cael eu dewis er mwyn sicrhau amrywiaeth, diddordeb ac effaith
- bydd strwythur gramadegol sylfaenol brawddegau'n gywir fel rheol
- bydd yr atalnodi'n gywir ar y cyfan
- bydd y sillafu'n gywir fel rheol
- bydd y plant yn cynhyrchu llawysgrifen ddarllenadwy.

Deiliant 6

Dyddiadur

Ar ôl rhannu stori gyda'r plant gofynnodd yr ymarferydd iddyn nhw ysgrifennu dyddiadur dychmygol o ddiwrnod tebyg yn eu bywyd. Mae Cian yn dychmygu sut byddai arno pe bai'n gwarchod y plant i Mr a Mrs Arth. Mae'n rhoi ei hynt a'i helynt i ni gam wrth gam.

Dyddiadur



Dydd Lun Mawrth 10fed 2008

Es i ddiwrn eŷ Mr a Mrs Arth-brown i gwarchod plant nhw roeddwn i wedi mynd i uterchaleu plant achos roedd nhw yn mynd allanac roedd y plant yn dweud roeddwn i ddim yn gureud gyntwedyd aethon ni i'r gegin roeddais i bysgod i'r babi ond roedd y babi ddim yn hoffi nhw wedyn roedd y plant eraill wedi dweud mae babis yn byta mel wedyn Carnis i hwiangerdd i'r babi wedyn aeth y babi i gysgu. Ond roedd y plant eraill yn chwarae a Aeth Dill i caddis yn y cloa gweddais i i'r plant. Er i'r gwely at unwaith. Rhedodd y plant i'r justis eddon ni i lawr ar y Sat at buys y tân yn y ystafell fynd aeth Mr a Mrs Arth Frown adref. ☺

Mae Cian yn defnyddio priflythrennau ac atalnodau'n gywir ac mae'n dewis geiriau i greu amrywiaeth a diddordeb. Mae strwythur gramadegol y brawddegau'n gywir ac mae'r llawysgrifen yn ddarllenadwy. Mae'n sillafu geiriau cyfarwydd a chyffredin yn gywir. Bu'n cynllunio ei waith yn ofalus ac wrth adolygu y gwaith gyda'r ymarferydd fe ddatblygodd y syniadau a'r defnydd o eiriau i greu effaith.

Mae'r enghraifft hon yn awgrymu bod ysgrifennu Cian ar Ddeiliant 6 y Cyfnod Sylfaen.


Meini prawf llwyddiant y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd:

- bydd gwaith ysgrifenedig y plant yn aml yn drefnus, yn ddychmygus ac yn glir
- bydd prif nodweddion gwahanol ffurfiau o ysgrifennu'n cael eu defnyddio'n briodol
- bydd geiriau'n cael eu dewis er mwyn sicrhau amrywiaeth, diddordeb ac effaith
- bydd strwythur gramadegol sylfaenol brawddegau'n gywir fel rheol
- bydd yr atalnodi'n gywir ar y cyfan
- bydd y sillafu'n gywir fel rheol
- bydd y plant yn cynhyrchu llawysgrifen ddarllenadwy.

Deilliant 6

Fflwffyn

Roedd Fflwffyn y bochdew wedi bod yn rhan o fywyd y dosbarth am fisoedd. Aeth Amelia ati i ysgrifennu cerdd i gofio amdano.



Mae'r gerdd yn tynnu sylw'r darlennydd yn syth oherwydd y ffordd mae wedi'i strwythuro drwy ddefnyddio llythrennau'r teitl eto ar ddechrau pob llinell. Mae Amelia'n ysgrifennu yn gynnig ac yn dewis ei geiriau'n ofalus i greu effaith. Mae'r sillafu'n gywir a'r llythrennau'n gyson o ran maint.

Mae'r enghraifft hon yn awgrymu bod ysgrifennu Amelia ar Ddeilliant 6 y Cyfnod Sylfaen.

Meini prawf llwyddiant y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd:

- bydd gwaith ysgrifenedig y plant yn aml yn drefnus, yn ddychmygus ac yn glir
- bydd prif nodweddion gwahanol ffurfiau o ysgrifennu'n cael eu defnyddio'n briodol
- bydd geiriau'n cael eu dewis er mwyn sicrhau amrywiaeth, diddordeb ac effaith
- bydd strwythur gramadegol sylfaenol brawddegau'n gywir fel rheol
- bydd yr atalnodi'n gywir ar y cyfan
- bydd y sillafu'n gywir fel rheol
- bydd y plant yn cynhyrchu llawysgrifen ddarllenadwy.

Datblygiad Mathemategol

Rhaid i ddatblygiad a dysgu mathemategol plant fod yn ystyrllon er mwyn bod yn effeithiol. Rhaid i weithgareddau mathemategol fod yn berthnasol ac yn rhan o fywyd a phrofiadau bob dydd y plant. Ceir cysylltiad agos rhwng datblygiad gwybyddol plant a datblygiad sgiliau a chysyniadau mathemategol, er enghraifft datrys problemau, dilyniannu a dosbarthu.

Mae plant yn mwynhau defnyddio mathemateg mewn gweithgareddau ymarferol. Maen nhw'n datblygu eu sgiliau drwy siarad am y gweithgareddau maen nhw'n rhan ohonyn nhw. Maen nhw'n gofyn ac yn ymateb i gwestiynau ac yn archwilio syniadau gwahanol.

Deilliant 4

Y siop ffrwythau

Ar ôl ymweld â marchnad ffrwythau a llysiau leol mae'r plant wedi gosod siop ffrwythau yn y dosbarth. Maen nhw wedi dysgu yn ystod yr ymweliad fod prisiau ffrwythau'n gallu dibynnu ar eu maint yn ogystal a'u pwysau. Mae'r siop erbyn hyn yn rhan o ddarpariaeth barhaus y dosbarth ac mae'r ymarferydd wedi cyfoethogi'r ddarpariaeth honno gyda'r afalau er mwyn ymestyn y dysgu.



Maes Dysgu ychwanegol:

Sgiliau laith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Heddiw mae'r ymarferydd yn chwarae rôl gyda Georgina. Georgina sy'n gweithio yn y siop a daw'r ymarferydd yno i brynu afal. Mae Georgina yn dangos ei bod yn gwybod beth sydd ganddi ar werth yn ôl eu maint a'u gwerth. Gyda chymorth mae'n cyfrif allan ddeg ceiniog drwy ddefnyddio darnau dau geiniog yn gywir ac yn gwybod faint sydd gan yr ymarferydd i fynd yn ôl gyda hi. Mae hyn yn dangos bod Georgina yn gallu adnabod gwerth darnau arian, ac yn gallu adio darnau arian hyd at ddeg. Mae hefyd yn dangos ei bod yn deall y cysyniad o roi a derbyn wrth brynu rhywbeth.

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi Georgina ar Ddeilliant 4 mewn Datblygiad Mathemategol.

Meini prawf llwyddiant y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd:

- byddant yn cyfrif, yn trefnu, yn adio ac yn tynnu rhifau wrth ddatrys problemau sy'n cynnwys hyd at 10 gwrthrych
- byddant yn ymwybodol o werth ddarnau arian gwahanol.

Deilliant 4

Gêm y broga bach

Mae'r plant yn aml yn chwarae gemau rhif yn yr ardal ddysgu tu allan. Yn ddiweddar daeth cyfle i edrych ar gylch bywyd y broga ac mae'r ymarferwyr wedi creu padiau rhifo ar ffurf lili'r dŵr.



Mae Erin yn defnyddio'r matiau rhif ac yn dilyn gorchmynion yr ymarferydd gan symud yn gywir o un rhif i'r llall. Mae hi'n gallu cyfrif ymlaen ac yn ôl mewn camau o wahanol faint gan ddechrau o wahanol rifau.

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi Erin ar Ddeilliant 4 mewn Datblygiad Mathemategol.

Maes Dysgu ychwanegol:

Sgiliau iaith,
Llythrennedd a
Chyfathrebu

Meini prawf llwyddiant y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd:

- byddant yn cyfrif, yn trefnu, yn adio ac yn tynnu rhifau wrth ddatrys problemau sy'n cynnwys hyd at 10 gwrthrych
- byddant yn cyfrif tuag ymlaen a thuag yn ôl mewn camau o wahanol faint, gan ddechrau o wahanol rifau.

Deilliant 5

Rhannu sanau



Mae grŵp o blant wedi mynd ati i dddoli sanau o 1 i 100 ar lawr y dosbarth. Maen nhw'n sylweddoli'n fuan fod rai o'r sanau ar goll. Gwelwn y plant yn rhesymu wrth roi'r parau sanau at ei gilydd yn gyntaf mewn degau ac yna'n unigol.

Meysydd Dysgu ychwanegol:

Gwybodaeth a
Dealltwriaeth
o'r Byd

Sgiliau iaith,
Llythrennedd a
Chyfathrebu

Mae'r grŵp yn gallu didoli'r parau sanau yn y drefn gywir wrth ymdrin a rhifau degau ac unedau. Wrth i'r ymarferydd eu holi mae'r grŵp yn ymateb yn frwd ac yn gallu egluro'r gwahaniaeth rhwng odrifau ac eilrifau yn gywir. Mae Myfanwy yn dangos ei bod yn gallu rhifo ac adnabod gwerth lle rhifau i 100. Mae'n defnyddio strategaethau i osod y sanau'n gyflym yn y drefn briodol. Mae'n cydweithio'n dda gyda gweddill y grŵp ac yn cynnig arweiniad ar brydiau.

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi Myfanwy ar Ddeilliant 5 mewn Datblygiad Mathemategol.

Meini prawf llwyddiant y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd:

- bydd y plant yn dewis y weithred fathemategol briodol wrth ddatrys problemau'n ymwneud ag adio neu dynnu rhifau
- byddant yn cyfrif setiau o wrthrychau'n ddibynadwy, a byddant yn galw ffeithiau rhifau rhwng 1 a 10 i gof er mwyn adio neu dynnu rhifau mwy o faint
- byddant yn gosod rhifau hyd at 100 yn eu trefn.

Deilliant 6



Meysydd Dysgu ychwanegol:

Sgiliau Iaith,
Llythrennedd a
Chyfathrebu

Datblygiad
Personol a
Chymdeithasol,
Lles ac
Amrywiaeth
Ddiwylliannol

Hwyl gyda rhifau

Mae grŵp o blant yn defnyddio byrddau gwyn i gofnodi heriau mathemategol. Mae'r grŵp yn un cymysg o ran gallu ac aeddfedrwydd ieithyddol. Mae'r ymarferydd yn canolbwyntio'n benodol ar ddau o'r grŵp sef Madeline a Gethin yn ystod y sesiwn. Gwelwn hi'n gosod heriau adio, tynnu a lluosu iddyn nhw.

Yn ystod mis Ionawr bu'r dosbarth yn astudio tymheredd mewn gwahanol fannau ar draws y byd gan ddefnyddio llyfrau o'r llyfrgell a'r rhynggrwyd i gywain gwybodaeth. Heddiw mae'n ddiwrnod ailymweld â'r graffiau. Dysgwr Cymraeg ydy Gethin ond gwelwn ei fod yn hyderus erbyn hyn wrth ddefnyddio'r iaith wrth ymateb i'r ymarferydd.

Mae Madeline a Gethin yn dangos elfennau o Ddeilliant 6 yn y ffordd maen nhw'n gweithio drwy ddefnyddio ffeithiau rhifau a gwerth lle hyd at fil. Maen nhw'n galw i gof strategaethau a thablau llusosi er mwyn datrys problemau gan gynnwys rhai sy'n gadael gweddill. Gallan nhw siarad am eu gwaith gan ddefnyddio iaith fathemategol ac maen nhw'n cyflwyno eu gwaith yn drefnus ar y byrddau gwyn gan ddefnyddio symbolau cywir.

Gwelwn Gethin yn ailedrych ar y graff a greodd ac yn dwyn i gof yr wybodaeth sydd wedi gofnodi ganddo. Mae'n darllen enwau'r dinasoedd ar draws y byd ac yn gallu ateb cwestiynau'r ymarferydd gan ddangos ei fod yn adnabod rhifau negyddol yn nhestun tymheredd. Ceir enghraifft hefyd o waith ym Maes Dysgu Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd wrth i Gethin astudio'r tywydd ar y pum cyfandir a chanfod atebion. Mae'r ymarferydd yn gwybod na chafodd ddim trafferth i ddefnyddio'r dechnoleg a ddarparwyd iddo ar gyfer y dasg. Cofnododd Gethin y tymheredd ar ffurf graff bloc gan nad ydy e eto wedi dysgu cofnodi tymheredd yn y ffordd gonfensiynol.

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi Madeline a Gethin ar Ddeiliant 6 mewn Datblygiad Mathemategol.

Meini prawf llwyddiant y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd:

- byddant yn datblygu rhagor o strategaethau pen ar gyfer adio a thynnu rhifau sy'n cynnwys o leiaf dau ddigid
- byddant yn galw tablau llusosi 2, 3, 4, 5 a 10 i gof er mwyn datrys problemau sy'n ymwneud â llusosi a rhannu rhifau cyfan, gan gynnwys y problemau hynny sy'n gadael gweddill
- byddant yn defnyddio gwerth lle mewn rhifau hyd at 1000
- byddant yn siarad am eu gwaith ac yn ei egluro.

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Mae Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd yn ymwneud â bywyd pob dydd y plant, eu cartrefi, eu teuluoedd, pobl eraill, yr amgylchedd a'r gymuned leol, a'r byd ehangach. Bydd y plant yn cael profiadau ystyrlon trwy wahanol fathau o gyfleoedd i chwarae, dysgu'n weithredol, dysgu trwy brofiad a gwneud gweithgareddau ymarferol. Bydd y profiadau hynny'n deffro'u synhwyrâu. Byddan nhw'n gwneud gwaith ymchwil a fydd yn ennyn eu diddordeb, a byddan nhw'n datblygu eu hymwybyddiaeth o gredoau a safbwyntiau pobl eraill.

Deilliant 4

Creu cardiau cyfarch

Mae'r ymarferydd a'r plant wedi bod yn trafod y ffyrdd o gyfarch ein gilydd yn y gorffennol a'r presennol. Cafwyd llawer o hwyl yn dilyn hynt llythyr Branwen o'r Iwerddon gyda'r drudwy. Yn y ddarpariaeth barhaus sydd ar gael i'r plant yn yr ardal greadigol a'r ardal ysgrifennu mae amrywiaeth o adnoddau ar gyfer anfon cyfarchion at ei gilydd. Mae'r plant wedi bod wrthi'n gadael nodiadau i'w ffrindiau yn gofyn am gymorth yma ac acw ar bob cyfle.



Meysydd Dysgu ychwanegol:

Datblygiad
Creadigol

Sgiliau Iaith,
Llythrennedd a
Chyfathrebu

Ar ôl gweld y plant yn gadael negeseuon cyfarch i'w gilydd mae'r ymarferydd yn gosod tasg â ffocws er mwyn rhoi cyfle i drafod cardiau cyfarch a'r modd maen nhw wedi newid dros y blynyddoedd. Dysgwyr Cymraeg ydy pob un o'r plant ac maen nhw'n swil iawn wrth ymateb i gwestiynau'r ymarferydd ac yn ateb drwy eiriau unigol yn unig er eu bod yn deall popeth mae hi'n gofyn iddyn nhw. Mae nhw'n gweld y gwahaniaeth rhwng y cardiau yn syth ac yn gallu egluro beth sy'n wahanol amdany'n nhw. Mae nhw hefyd yn gwybod bod yn well ganddyn nhw'r cardiau cyfarch mae nhw'n derbyn heddiw ond pan maen nhw'n cael cyfle i ail-greu cardiau mae pob un yn mynd ati i ail-greu cerdyn o'r gorffennol!

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi Tom ar Ddeilliant 4 mewn Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd.

Meini prawf llwyddiant y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd:

- bydd y plant yn cyfleu eu gwybodaeth (am) . . . ddigwyddiadau yn y presennol a'r gorffennol gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau.

Deilliant 4

Trafod adeiladu'r ysgol

Wrth aros am eu rhieni/gofalwyr ar ddiwedd y dydd mae'r plant yn dechrau trafod amgylchedd yr ysgol. Wrth glywed y plant yn sgwrsio mae'r ymarferydd yn penderfynu ymuno gyda nhw.



Maes Dysgu ychwanegol:

Sgiliau Iaith,
Llythrennedd a
Chyfathrebu

Mae'r plant yn aros am eu rhieni/gofalwyr ar ddiwedd y pŵn a gan ei bod yn ddiwrnod braf mae'r ymarferydd yn eistedd ac yn sgwrsio gyda'r grŵp ar ochr y pŵll tywod. Mae'n manteisio ar y cyfle i weld faint mae'r plant yn cofio am eu hamgylchedd. Yn y darn sy'n dilyn gwelwn nhw'n edrych o gwmpas yr ysgol ac yn trafod agweddau o'r adeilad. Wrth ymateb i gwestiynau'r ymarferydd mae'r grŵp yn cyfleu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am nodweddion sylfaenol eu hamgylchedd, deunyddiau naturiol a rhai a grëwyd gan ddyn. Er eu bod yn deall popeth mae'r ymarferydd yn gofyn iddyn nhw, mae'r plant yn ymateb mewn geiriau unigol yn bennaf ac yn amharod i ddefnyddio brawddegau llawn yn eu hymatebion. Drwy ddefnyddio tystiolaeth a gasglwyd eisoes â'r dystiolaeth mae hi'n gael drwy'r sgwrs hon, daw'r ymarferydd i'r casgliad mai Deilliant 4 sydd yn cyd-fynd orau ag aelodau'r grŵp.

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi y grŵp ar Ddeilliant 4 mewn Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd.

Meini prawf llwyddiant y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd:

- byddant yn gwneud arsylwadau, yn gofyn ac yn ateb cwestiynau, ac yn dod o hyd i atebion gan ddefnyddio ffynonellau a deunyddiau dysgu
- byddant yn adnabod ac yn grwpio eitemau o wybodaeth
- byddant yn dangos ymwybyddiaeth o'r gwahaniaeth rhwng y presennol a'r gorffennol yn eu bywyd eu hunain a bywydau pobl eraill.

Deilliant 5

Capsiwl amser

Yn ystod y flwyddyn mae'r ysgol wedi bod yn gwella'r amgylchfyd yn yr ardal tu allan. Wrth iddyn nhw fod yn rhan o'r cynllunio cafodd y plant ddiddordeb yng ngorffennol yr ysgol a'r ardal o'u cwmpas. Ar ôl gweld stori yn y papur lleol am ddarganfod capsawl amser, sbardunwyd chwilfrydedd y plant i feddwl am eitemau i'w rhoi yn eu capsawl eu hunain.



Maes Dysgu ychwanegol:

Sgiliau Iaith,
Llythrennedd a
Chyfathrebu

Heddiw mae'r ymarferydd wedi dod â bocs o eitemau o'i phlentyndod hi ei hun i'r dosbarth ac mae'n rhannu cynnwys y bocs gyda'r grŵp. Mae Daisy'n gwybod yn iawn beth ydy capsawl amser ac yn dangos hyder wrth ateb. Mae'r plant yn gwrando'n ofalus wrth i'r ymarferydd esbonio pam fod yr eitemau'n golygu cymaint iddi. Yng nghanol y bocs mae map o'r ardal leol ac mae Daisy yn awyddus iawn i ddangos ei bod yn adnabod yr ardal drwy'r map. Mae hen lun o'r ysgol yn ennyn chwilfrydedd y plant wrth iddyn nhw drafod y newidiadau a welir o gwmpas yr adeilad erbyn heddiw.

Wedi'r trafod gwelwn y grŵp yn creu eu capsawl amser eu hunain. Mae pob plentyn wedi dod â rhywbeth sy'n bwysig iddyn nhw i'w rhoi yn y capsawl. Darn o Lego sydd gan Theo, dol fach gafodd gan ei chyfnither sydd gan Daisy ac mae Isabel wedi dod â llun o'i hunan yn fabi ar lin ei mam. Maen nhw'n egluro pam eu bod wedi dewis yr eitemau i'w roi yn y bocs gan siarad yn glir gyda hyder cynyddol.

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi Daisy ar Ddeilliant 5 mewn Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd.

Meini prawf llwyddiant y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd:

- byddant yn dod o hyd i wybodaeth ar fap
- byddant yn cyfleu eu hymdeimlad cynyddol o Gronoleg trwy ddefnyddio termau sy'n ymwneud â threigl amser, rhoi digwyddiadau a gwrthrychau yn eu trefn, a gwahaniaethu rhwng agweddau ar eu bywydau eu hunain a chyfnodau yn y gorffennol
- byddant yn cynnig esboniadau ynghylch pam y gweithiodd neu na weithiodd rhywbeth.

Datblygiad Corfforol

Mae Datblygiad Corfforol yn ymwneud â sgiliau echddygol bras (datblygiad rheolaeth gorfforol a chydweithrediad symudiadau mawr), sgiliau llawdrin manwl, ymwybyddiaeth ofodol a chymbwysedd. Mae'n canolbwyntio hefyd ar wybodaeth a dealltwriaeth plant o sut mae lles corfforol yn dibynnu ar ffordd iach o fyw.

Drwy gydol y Cyfnod Sylfaen mae plant yn caffael ac yn datblygu eu sgiliau corfforol drwy chwarae a gweithgareddau ymarferol eraill drwy ddefnyddio'r ddarpariaeth barhaus a'r ddarpariaeth a gyfoethogwyd yn yr amgylchedd dysgu tu fewn a thu allan.

Deilliant 5/6

Chwarae pêl

Mae'r ymarferydd yn rhoi cyfle i'r plant chwarae gyda'r peli yn yr ardal tu allan er mwyn iddo weld eu sgiliau taflu a dal.

Yn nghornel y cae mae gan y plant gwrs her ble maen nhw'n ymarfer eu sgiliau cydbwysedd ar bob cyfle posibl.



Mae Jordan yn gallu bownsio pêl dan reolaeth gydag un llaw. Wrth i'r sesiwn barhaus aeth yr ymarferydd ati i fanteisio ar y cyfle i Jordan rannu ei sgiliau gyda'r grŵp. Roedd yn tyfu mewn hyder wrth iddo gael cyfle i arddangos y sgîl o fownsio pêl gydag un llaw bu'n ymarfer cymaint arni dros yr wythnos flaenorol.

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi Jordan ar Ddeilliant 5 mewn Datblygiad Corfforol.

Mae Heledd a Rhian yn symud yn hyderus wrth fownsio pêl a'i dal. Wrth fynd at eu gilydd fel pâr maen nhw'n gallu dewis y pellter gorau rhyngddyn nhw i sicrhau eu bod yn dal i reoli'r chwarae. Mae'r ddwy'n gallu symud gyda rheolaeth gorfforol dda. Maen nhw'n ymwybodol o'r pellter mae angen ei adael rhyngddyn nhw ac eraill er mwyn symud yn ddiogel gyda rheolaeth.

Wrth chwarae ar y cwrs her mae'r plant yn datblygu cydbwysedd corff a thyndra cyhyrau. Maen nhw'n dangos eu bod yn gallu neidio oddi ar y cyfarpar o un elfen i'r llall yn hyderus.

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi Heledd a Rhian ar Ddeilliant 5 gydag elfennau o Ddeilliant 6 mewn Datblygiad Corfforol.

Meini prawf llwyddiant y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd:

- bydd y plant yn tyfu'n gryfach ac yn fwy ystwyth
- byddant yn gallu bownsio pêl ag un llaw a gallant ddal pêl â dwy law
- byddant yn ymarfer er mwyn gwella eu sgiliau a byddant yn dechrau cysylltu gweithredoedd, megis . . . dal a thafu
- bydd y plant yn defnyddio ac yn datblygu eu sgiliau gan ddangos gwell rheolaeth a sgiliau cydsymud.

Deilliant 6

Gwneud siapiau

Mae'r plant yn cael hwyl wrth ymdrin â siapiau gymnasteg yn neuadd yr ysgol. Weithiau byddan nhw'n mynd â'r matiau allan i'r amgylchedd dysgu tu allan er mwyn ymarfer eu sgiliau.



Ardal gyfyng iawn sydd gan y plant i weithio ynddo yn neuadd yr ysgol ac yn aml maen nhw'n cael cyfle i ymarfer yn yr ardal ddysgu tu allan. Yn y sesiwn gymnasteg mae Heledd yn gwrando'n ofalus ar gyfarwyddiadau'r ymarferydd. Mae'n dangos rheolaeth corff wrth symud a chreu siapiau. Pan mae'n symud o un siâp i siâp arall gwelwn y tyndra yn y cyhyrau ac mae'n gallu dal y siâp yn hyderus. Wrth symud matiau ac offer ar hyd y llawr mae hi'n gwneud hynny'n ofalus a chywir gyda help Rhian. Mae gan yr ymarferydd dystiolaeth o'r ffordd mae Heledd yn dangos hyder wrth werthuso ei gwaith ei hun ac eraill a chynnig awgrymiadau i wella. Mae hi'n hoffi reidio'i beic dwy olwyn pan nad ydy hi yn yr ysgol ac mae hi'n ymwybodol pam fod ymarfer corfforol dyddiol yn ei helpu i gadw'n iach. Wrth iddi gymryd rhan mewn gemau tîm yn ystod y flwyddyn mae Heledd wedi dechrau dangos ei bod yn ymwybodol o'r gwahanol egwyddorion sy'n sail i weithgareddau cystadleuol ac anturus.

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi Heledd ar Ddeilliant 6 mewn Datblygiad Corfforol.

Meini prawf llwyddiant y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd:

- bydd y plant yn defnyddio ac yn datblygu eu sgiliau gan ddangos gwell rheolaeth a sgiliau cydsymud
- yn ystod symudiadau gymnasteg, bydd y plant yn dangos gwell tyndra yn eu cyhyrau ac yn creu siapiau cliriach â'u cyrff, a bydd eu symudiadau cysylltiedig yn dechrau dangos peth rhwyddineb
- byddant yn cynnal gweithgaredd dros gyfnodau priodol.

Datblygiad Creadigol

Mae Datblygiad Creadigol yn ymwneud â datblygu ffyrdd unigol plant o gynrychioli eu syniadau, eu teimladau a'u hemosiynau yn ddychmygus drwy amrywiol fathau o hunanfyneiant, megis peintio, gwneud modelau, chwarae rôl, cerddoriaeth, barddoniaeth, dawns, ysgrifennu a datblygu empathi ag eraill.

Mae plant yn datblygu eu dychymyg a'u creadigrwydd yn barhaus ar draws y cwricwlwm. Mae eu chwilfrydedd naturiol a'u tuedd naturiol i ddysgu yn cael ei symbylu gan brofiadau synhwyrdd dan do a thu allan. Mae plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol, dychmygus a mynegiannol ar draws y Mesydd Dysgu, gan ymchwilio i ystod eang o symbyliadau. Bydd llawer o hyn yn digwydd drwy weithgareddau a ysgogir gan y plant eu hunain, ond weithiau tasg â ffocws sy'n ysgogi'r dysgu.

Deilliant 4



Meysydd Dysgu ychwanegol:

Datblygiad Corfforol

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Parot lliwgar

Yn ardal greadigol yr ysgol mae grŵp o blant wrthi'n creu darluniau o'u hoff anifail neu aderyn o'r jyngl. Dewisodd Ben wneud parot lliwgar. Mae'n edrych yn fanwl ar lun parot ac yn mynd ati i ail-greu copi ei hun. Mae'n dewis yr adnoddau sydd ei hangen arno ac yn mynd ati'n ofalus i dynnu amlinelliad, torri allan y siâp a gludo plu, botymau ac ati i greu effeithiau.

Mae Ben yn dewis ei offer yn hyderus ac yn ofalus ac yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ddarpariaeth barhaus i greu effaith yn bwrpasol. Pan mae'n torri allan gyda'r siswrn gwelwn ei fod yn dangos elfennau o Ddeilliant 5 mewn Datblygiad Corfforol gan ei fod yn torri allan amlinelliad sy'n arbennig o gymhleth o gwmpas pig a thraed y parot a greodd.

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi Ben ar Ddeilliant 4 mewn Datblygiad Creadigol.

Meini prawf llwyddiant y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd:

- bydd y plant yn defnyddio deunyddiau/adnoddau ac offer i greu delweddau ac arteffactau creadigol sy'n arddangos sgil cynyddol, gan arbrofi'n ymarferol ac yn ddychmygus er mwyn cofnodi'r syniadau a'r teimladau sy'n deillio o'u harsylwadau, eu profiad a'u dychymyg
- bydd y plant yn dechrau ffurfio cysylltiadau rhwng eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill, a defnyddio sgiliau cyfathrebu sylfaenol i gyfleu eu dealltwriaeth.

Deilliant 4

Ar ysgafn droed

Yn ystod sesiwn yn neuadd yr ysgol mae grŵp o blant yn cael cyfle i symud i gerddoriaeth wrth barhau â'u stori am y jyngl.



Wrth ymateb i'r ymarferydd mae Marina yn mynegi ei syniadau drwy ddefnyddio gwahanol rannau'r corff gyda symudiadau amrywiol i rhythm y gerddoriaeth. Mae'n amrywio siâp ei chorff, a dull teithio gyda'r gerddoriaeth. Mae ganddi hi ymwybyddiaeth o'r pellter sydd angen rhyngddi a gweddill y grŵp er mwyn symud yn ddiogel â rheolaeth gynyddol.

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi Marina ar Ddeilliant 4 mewn Datblygiad Creadigol.

Meini prawf llwyddiant y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd:

- byddant yn mynegi eu syniadau trwy gyfrwng symudiadau sy'n amrywio o ran siâp, rhythm, a dull teithio, gan ddefnyddio gwahanol rannau o'r corff, cyfnodau o lonyddwch a chyfnodau o gadw cydbwysedd
- byddant yn dangos ymwybyddiaeth gynyddol o'r pellter y mae angen ei adael rhyngddynt ac eraill er mwyn symud yn ddiogel â rheolaeth gynyddol.

Deilliant 5



Maes Dysgu ychwanegol:

Datblygiad Corfforol

Creu jyngl

Mae'r plant am greu murlun o'r jyngl i'w roi ar wal yr ysgol ac maen nhw wedi bod yn casglu dail a brigau wrth fynd yma ac acw yn yr ardal ddysgu tu allan. Yn y ddarpariaeth barhaus mae llawer o adnoddau arferol ar gael i'r plant a chyfoethogwyd y ddarpariaeth honno gyda'r darnau a gasglwyd o amgylch y cae.

Mae Rhian wedi meddwl ymlaen llaw beth mae hi am ei greu a gwelwn hi yn tynnu llun coeden cyn mynd ati i greu effeithiau ar y papur. Mae hi'n defnyddio ystod o ddeunyddiau i greu delweddau o'r jyngl gan archwilio nodweddion gweledol, cyffyrddol a synhwyrdd pob un. Gyda gofal mae hi'n gosod y dail a gasglodd o gae'r ysgol yn ystod y bore ar ben y goeden ac yn gwerthuso'r llun cyn gludo'r dail yn eu lle.

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi Rhian ar Ddeilliant 5 mewn Datblygiad Creadigol.

Meini prawf llwyddiant y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd:

- bydd y plant yn defnyddio ystod o ddeunyddiau ac offer i greu delweddau ac arteffactau, a byddant yn archwilio nodweddion gweledol, cyffyrddol a synhwyrdd mewn modd ymarferol a dychmygus, gan wneud newidiadau i'w gwaith lle byddant yn credu bod angen gwneud hynny
- byddant yn cofnodi delweddau a syniadau sy'n deillio o arsylwadau, profiad, y cof a'r dychmyg gan ddefnyddio ystod o adnoddau y byddant wedi'u casglu a'u trefnu.

Deilliant 6

Poster parti

Yn ddiweddar bu'r plant yn gweithio'n galed ar greu gardd lysiau newydd yn yr ysgol. Maen nhw wedi tyfu pob math o gynnyrch yn yr ardd ac erbyn hyn maen nhw'n eu gwerthu i rieni/gofalwyr a ffrindiau'r ysgol. Cyn diwedd y tymor mae'r plant yn awyddus i gael parti i ddathlu llwyddiant yr ardd newydd a gwaith Daniel yw greu poster/gwahoddiad i dynnu sylw at yr achlysur.



Maes Dysgu ychwanegol:

Sgiliau Iaith,
Llythrennedd a
Chyfathrebu

Wrth ddechrau creu'r poster/gwahoddiad, mae'n amlwg fod Daniel wedi meddwl eisoes am gynllun a sut mae am fynd ati i wneud yn siŵr fod y gwahoddiad yn denu sylw. Mae'n rhannu ei syniad gyda'r ymarferydd ac mae hi'n manteisio ar bob cyfle i arsylwi ar Daniel wrth iddo fynd ati gyda'r cyfrifiadur i ysgrifennu ac argraffu'r gwaith.

Mae Daniel yn dangos ei fod yn gallu defnyddio ystod o ddeunyddiau ac adnoddau, offer a thechnegau i gyflawni'r dasg. Mae'r gwaith yn dangos nodweddion gweledol, cyffyrddol a synhwyrdd. Mae Daniel yn dewis o blith ystod eang o adnoddau ac yn gwybod sut i ddenu sylw at ei waith drwy greu nadroedd o wahanol feintiau gyda glanhawyr pibell. Er hynny, mae'n sicrhau nad yw'r nadroedd yn tynnu oddi wrth brif neges y cerdyn drwy leoli'r gwahoddiad printiedig yn uchel ar y cerdyn a rhoi'r nadroedd ar y gwaelod. Wrth werthuso ei waith mae'n gallu rhesymu a chyfiawnhau ei waith tri dimensiwn a phan mae'r ymarferydd yn gofyn iddo ble dylid arddangos y gwahoddiad mae'n amlwg ei fod wedi meddwl am hynny hefyd. Mae'n argymhell wal benodol yn yr ardal gelf gan fod yr ardal ar lwybr y plant a'r oedolion wrth iddyn nhw fynd at yr ardal ddysgu tu allan ac mae'n cael ei ddefnyddio'n gyson bob dydd.

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi Daniel ar Ddeilliant 6 mewn Datblygiad Creadigol.

Meini prawf llwyddiant y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd:

- bydd y plant yn defnyddio ystod o ddeunyddiau/adnoddau, offer a thechnegau i gyflawni gwahanol ganlyniadau, a byddant yn arbrofi â nodweddion gweledol, cyffyrddol a synhwyrdd gan wneud newidiadau addas i'r gwaith lle byddant yn gweld bod angen addasu.

Deiliant 4

Creu cerddoriaeth

Mae'r plant yn aml yn defnyddio ardal ddysgu tu allan yr ysgol i greu cerddoriaeth. Mae'r goedwig yn amgylchedd sy'n cynnig pob math o gyfleoedd iddyn nhw ddatblygu eu sgiliau synhwyrdd. Heddiw maen nhw'n defnyddio offerynnau taro i gynrychioli anifeiliaid y jyngl ac i gyfeilio i'w canu.



Mae'r grŵp yma o blant yn creu patrymau syml gyda'r offerynnau taro. Gall bob un roi rheswm dros eu dewis o offeryn, er enghraifft y drwm i gynrychioli traed trwm yr eliffant. Maen nhw'n cadw curiad sicr pan yn efelychu curiadau'r ymarferydd ac yn cyfeilio iddyn nhw eu hunain wrth ganu can 'Y Jyngl'. Ar y cyfan maen nhw'n rheoli eu hanadl gan eirio'n glir a pherfformio'n unol â chyfarwyddyd yr ymarferydd.

Mae'r ail grŵp yn defnyddio grisiau'r garafán fel lle ymgynnull. Daw'r ddau grŵp at ei gilydd i ganu can 'Y Parti' a chael cyfle i gyfeilio i'r canu gyda'r clychau.

Deiliannau 4, 5 a 6



Mae'r ail grŵp yn gallu efelychu patrymau mwy cymhleth gan gadw amser a churiad cyson gyda'r offer taro. Maen nhw'n gallu canu mewn tiwn ac yn rheoli eu lleisiau i greu effeithiau dan gyfarwyddyd ac yn gwella eu perfformiad. Maen nhw'n creu hwyl y parti drwy amrywio eu lleisiau wrth ymateb i'r geiriau a'r gerddoriaeth, er enghraifft wrth sôn am hwyl y parti a'r blinder ar ddiwedd y dydd. Mae'r unigolion yn cyfeilio'n hyderus gyda'r clychau.

Pan maen nhw'n mynd ati i greu stori gerddorol am y gofod mae'r grŵp wedi dewis eu hofferynnau'n ofalus. Maen nhw'n aml yn cyfansoddi darnau ac yn eu perfformio i weddill yr ysgol mewn gwasanaeth neu gyngerdd.

Deilliannau 4, 5 a 6



Creu cerddoriaeth am eu taith i'r gofod wnaeth y trydydd grŵp. Maen nhw'n defnyddio ystod gyfyngedig o nodau ar yr allweddellau a'r seiloffon ac maen nhw'n creu effeithiau gan ddefnyddio eu lleisiau yn ogystal ag offerynnau. Bu cryn werthuso ar y gwaith yn ystod y creu. Mae'r grŵp wedi gweithio gyda'i gilydd i gyfansoddi darn gyda siâp cerddorol syml.

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi'r grwpiau ar Ddeiliant 4, 5 a 6 mewn Datblygiad Creadigol.

Meini prawf llwyddiant y Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiwyd:

- bydd y plant yn . . . arbrofi'n ymarferol ac yn ddychmygus er mwyn cofnodi'r syniadau a'r teimladau sy'n deillio o'u harsylwadau, eu profiad a'u dychymyg
- byddant yn chwarae patrwm syml ar offeryn taro gan gadw amser â churiad cyson
- bydd y plant yn canu caneuon mewn tiwn ac yn rheoli eu hanadlu
- byddant yn chwarae rhan offerynnol gan ddefnyddio ystod gyfyngedig o nodau
- byddant yn gweithio gydag eraill i greu cyfansoddiadau sydd â siâp cerddorol syml, gan adolygu eu syniadau lle bo angen.

Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen

Deilliannau ar gyfer Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

Deilliant 1 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn ddibynnol ar oedolion cyfarwydd o safbwynt emosïynol. Byddant wedi dechrau mynegi'n syml sut y maent yn teimlo a byddant yn ymateb i gyfarchion cymdeithasol. Efallai y bydd y plant yn strancio pan fyddant yn teimlo'n rhwystredig, ond byddant yn dysgu bod rhai mathau o ymddygiad yn annerbyniol. Byddant wedi dechrau chwarae rôl ar eu pen eu hunain neu'n gyfochrog â phlant eraill, a hynny'n aml wrth ymyl oedolyn cyfarwydd. Efallai y bydd angen cymorth ar y plant mewn perthynas â sgiliau hunangymorth (personol) pob dydd ond byddant yn awyddus i helpu fel rheol. Byddant yn dangos gwybodaeth o drefniadau arferol cyfarwydd sy'n ymwneud â gofal.

Deilliant 2 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn hoffi helpu oedolion a chyfoedion ond nid pan fo hynny'n gwrthdaro â'r hyn sydd o fudd iddynt hwy. Byddant yn dangos hoffter at blant eraill ac efallai y byddant yn chwarae gyda hwy. O gael cymorth gan oedolyn, bydd y plant yn barod i rannu teganau ac adnoddau, a byddant yn cymryd eu tro i wneud rhywbeth. Bydd y plant wedi dod yn ymwybodol o'u teimladau a'u hemosiynau eu hunain, a byddant yn dechrau uniaethu â theimladau ac emosïynau pobl eraill. Byddant yn ceisio bod yn annibynnol ond bydd arnynt angen cymorth weithiau. Byddant yn dechrau datblygu ymwybyddiaeth o ddiogelwch personol, yn enwedig peryglon.

Deilliant 3 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant wedi tyfu'n fwy annibynnol o safbwynt eu gwaith dysgu a byddant yn gallu ymdopi â newidiadau i drefniadau arferol. Byddant yn adnabod anghenion pobl eraill ac yn dangos sensitifrwydd cynyddol tuag at yr anghenion hynny. Byddant yn dechrau adnabod ymddygiad priodol ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd ac ymateb i reswm. Byddant yn dechrau deall y dylid trin popeth byw â gofal, parch a phryder. Byddant yn dangos peth rheolaeth ar eu hemosiynau a byddant yn aml yn mabwysiadu safonau ymddygiad oedolion sy'n agos atynt. Byddant yn gallu diwallu'r rhan fwyaf o'u hanghenion personol yn annibynnol.

Deilliant 4 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn cymryd rhan yn annibynnol mewn gweithgareddau chwarae ar y cyd. Byddant yn dangos hunanreolaeth gynyddol a byddant yn gallu aros i'w hanghenion gael eu diwallu. Byddant yn gallu canolbwyntio ar dasg, a bydd ganddynt hoffterau a chas bethau pendant. Bydd y plant yn cefnogi, yn cysuro ac yn helpu plant eraill pan fyddant yn drist neu wedi cynhyrfu. Byddant yn tyfu'n fwyfwy ymwybodol o'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhyngddynt hwy a'u cyfoedion, a byddant yn adnabod gwahaniaethau ac amrywiaeth ddiwylliannol. Bydd y plant yn mwynhau gofalu am yr amgylchedd, megis planhigion ac anifeiliaid anwes. Byddant yn ymwybodol o arferion bwyta'n iach, a gallant wahaniaethu rhwng bwydydd iach a bwydydd nad ydynt yn iach.

Deilliant 5 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn cymdeithasu, yn cydweithredu ac yn cyfathrebu'n briodol â'u cyfoedion ac oedolion cyfarwydd, a byddant yn gofyn am gymorth pan fo angen. Byddant yn adnabod eu teimladau a gallant eu mynegi'n briodol. Byddant yn parchu eraill ac yn gwerthfawrogi eu cyflawniadau. Bydd ganddynt ddealltwriaeth glir o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir, a byddant yn fwy ymwybodol o deimladau, safbwyntiau a chredoau pobl eraill. Byddant wedi deall y cysyniad o chwarae teg, a bydd ganddynt ddealltwriaeth o reolau a pham y mae'r rheolau hynny wedi'u llunio. Bydd gan y plant well dealltwriaeth o ganlyniadau eu gweithredoedd, a byddant yn cymryd cyfrifoldeb am y penderfyniadau y byddant yn eu gwneud. Ar y cyfan, byddant yn gallu rheoli eu hemosiynau ac ymdopi â siom. Byddant yn deall y bydd angen iddynt fwyta ac yfed yn briodol er mwyn cadw eu cyrff yn iach.

Deilliant 6 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant wedi dysgu eu bod yn gallu rheoli eu hemosiynau a'u bod yn gwneud hynny'n aml. Byddant wedi dechrau gwneud ffrindiau sy'n bwysig iawn iddynt, a bydd eilunod/arwyr yn chwarae rhan bwysig yn eu gweithgareddau chwarae a'u bywydau. Byddant yn deall bod gan bobl wahanol hoffterau, safbwyntiau a chredoau, a bydd ganddynt ddealltwriaeth o'r modd y dylent ymwneud ag eraill o safbwynt moesegol a moesol. Bydd y plant wedi symud ymlaen i allu gweld pethau o safbwynt plant eraill ac oedolion. Bydd y plant yn dangos medrusrwydd wrth adnabod problemau a chanfod ffyrdd o'u datrys. Byddant yn gallu dangos eu bod yn medru dyfalbarhau, canolbwyntio a chymell. Byddant yn dangos hunanreolaeth briodol. Bydd y plant yn deall sut y gallant wella eu gwaith dysgu a byddant yn gallu myfyrio.

Deilliannau ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Deilliant 1 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn 'siarad' â'u hunain a byddant yn gallu deall llawer mwy o eiriau nag y gallant eu siarad. Byddant yn ailadrodd enwau gwrthrychau cyfarwydd. Byddant yn dilyn cyfarwyddiadau syml ac yn dechrau mynegi eu hunain trwy gyfrwng gweithgareddau chwarae rôl. Byddant yn fwyfwy awyddus i ymuno ag eraill mewn caneuon a hwiangerddi, yn enwedig caneuon actol a rhigymau lle defnyddir y bysedd. Bydd y plant yn dechrau dilyn y storïau a ddarllenir iddynt a byddant yn dechrau ymateb iddynt yn briodol. Byddant yn dechrau 'tynnu lluniau' gan ddefnyddio'r llaw sydd orau ganddynt ac arbrofi â gwneud marciau.

Deilliant 2 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn sgwrsio'n syml gan hepgor cysyllteiriau o bryd i'w gilydd a gofyn cwestiynau'n aml, e.e. 'pam?' a 'sut?'. Byddant yn ymateb i gyfarwyddiadau, cwestiynau a symbyliadau eraill. Bydd y plant yn gwrando ar storïau, caneuon a rhigymau a byddant yn mynegi peth mwynhad a diddordeb. Bydd y plant yn edrych ar lyfrau gydag oedolyn neu heb oedolyn a byddant yn dangos diddordeb yn eu cynnwys. Byddant yn dechrau dilyn storïau drwy edrych ar y lluniau, a byddant yn gwahaniaethu rhwng print a lluniau. Byddant yn rhoi cynnig ar ddefnyddio amrywiaeth o offer i wneud marciau a siapiau ar bapur neu ddeunydd arall priodol.

Deilliant 3 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn defnyddio geirfa gynyddol wrth siarad. Byddant yn dechrau defnyddio brawddegau llawn. Bydd y plant yn gwrando ar eraill ac yn ymateb yn briodol fel rheol. Gyda chymorth, byddant yn ailadrodd caneuon a rhigymau neu'n eu dysgu ar y cof. Byddant yn ailadrodd storïau cyfarwydd mewn modd syml. Bydd y plant yn trin llyfr fel pe baent yn ei ddarllen a byddant yn siarad am gynnwys y llyfr. Byddant yn dechrau deall bod gwyddor yn sail i waith darllen ac ysgrifennu a bod seiniau ac ystyr yn perthyn i symbolau ysgrifenedig. Byddant yn dal offer ysgrifennu'n briodol, yn gwahaniaethu rhwng llythrennau ac yn dechrau ysgrifennu mewn modd confensiynol.

Deilliant 4 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn siarad yn glywadwy, gan gyfleu ystyr i ystod o wrandawyr. Byddant yn dechrau ymestyn eu syniadau neu eu hanesion trwy gynnwys rhai manylion. Bydd y plant yn gwrando ar eraill, gan ymateb yn briodol fel rheol. Byddant yn adnabod geiriau cyfarwydd mewn testunau syml ac, wrth ddarllen yn uchel, byddant yn defnyddio eu gwybodaeth o lythrennau a'r berthynas rhwng seiniau a symbolau i ddarllen geiriau a chadarnhau ystyr. Byddant yn ymateb i gerddi, storïau a deunydd ffeithiol, ond bydd arnynt angen cymorth weithiau. Bydd gwaith ysgrifenedig y plant yn cyfleu ystyr trwy gyfrwng geiriau ac ymadroddion syml. Yn eu gwaith darllen neu eu gwaith ysgrifenedig, byddant yn dechrau dangos dealltwriaeth o'r modd y mae brawddegau'n gweithio. Bydd y plant yn ysgrifennu llythrennau sydd wedi'u ffurfio'n glir ac sy'n wynebu'r cyfeiriad cywir fel rheol. Byddant yn dechrau deall y gwahanol ddibenion a swyddogaethau sy'n perthyn i iaith ysgrifenedig.

Deilliant 5 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn siarad yn glir â hyder cynyddol a byddant yn defnyddio geirfa sy'n ehangu. Byddant yn dangos ymwybyddiaeth o anghenion y gwrandawr trwy gynnwys manylion perthnasol. Byddant yn deall ac yn cyfleu gwybodaeth syml. Byddant fel rheol yn gwrando'n ofalus ac yn ymateb i ystod ehangach o symbyliadau. Byddant yn mabwysiadu geirfa a goslef fwy ffurfiol mewn rhai sefyllfaoedd. Byddant yn dechrau sylweddoli bod amrywiaeth yn perthyn i'r iaith a glywant o'u cwmpas. Byddant yn darllen testunau syml yn gywir ar y cyfan. Byddant yn dangos dealltwriaeth o ddigwyddiadau neu syniadau pwysig mewn storïau, cerddi a deunydd ffeithiol, a byddant yn mynegi barn yn eu cylch. Byddant yn defnyddio ystod o strategaethau wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd a chadarnhau ystyr. Bydd gwaith ysgrifenedig y plant yn cyfleu ystyr. Byddant yn defnyddio geirfa briodol a diddorol gan ddangos peth ymwybyddiaeth o'r darllynydd. Bydd syniadau'n cael eu datblygu'n aml ar ffurf dilyniant o frawddegau cysylltiedig, a bydd priflythrennau ac atalnodau llawn yn cael eu defnyddio â rhywfaint o gysondeb. Bydd geiriau syml yn cael eu sillafu'n gywir fel rheol, ond os byddant wedi'u sillafu'n anghywir byddant yn ddealladwy o safbwynt ffonig. O ran llawysgrifen, bydd llythrennau'n cael eu ffurfio'n gywir a byddant yn gyson o ran maint.

Deilliant 6 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn dechrau addasu eu ffordd o siarad i fodloni gofynion y gynulleidfa, gan amrywio eu defnydd o eirfa a lefel y manylder. Byddant yn archwilio ac yn cyfleu syniadau, gan ddangos ymwybyddiaeth o drefn a dilyniant mewn ystod o gyd-destunau. Byddant yn dangos eu bod wedi gwrando'n ofalus trwy gynnig sylwadau a gofyn cwestiynau perthnasol. Byddant yn darllen ystod o destunau â chywirdeb, rhuglder a phwyslais cynyddol. Byddant yn darllen yn annibynnol, gan ddefnyddio strategaethau priodol i gadarnhau ystyr. Byddant yn ymateb i destunau ac yn mynegi hoffterau. Byddant yn dangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau ac yn siarad am fanylion pwysig. Byddant yn defnyddio eu gwybodaeth am yr wyddor i ddod o hyd i lyfrau a gwybodaeth. Bydd gwaith ysgrifenedig y plant yn aml yn drefnus, yn ddychmygus ac yn glir. Bydd prif nodweddion gwahanol ffurfiau o ysgrifennu'n cael eu defnyddio'n briodol. Bydd geiriau'n cael eu dewis er mwyn sicrhau amrywiaeth, diddordeb ac effaith. Bydd strwythur gramadegol sylfaenol brawddegau'n gywir fel rheol. Bydd yr atalnodi'n gywir ar y cyfan. Bydd y sillafu'n gywir fel rheol. Bydd y plant yn cynhyrchu llawysgrifen ddarllenadwy.

Deilliannau ar gyfer Datblygiad Mathemategol

Deilliant 1 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn rhagweld, yn dilyn, yn ymateb ac yn ymuno ag eraill mewn rhigyau, storïau, caneuon, gweithgareddau a gemau cyfarwydd sy'n ymwneud â rhifau. Byddant yn dangos ymwybyddiaeth o weithgareddau rhif; byddant yn adrodd, yn mynegi trwy gyfrwng iaith arwyddion, neu'n dangos un neu ragor o rifau hyd at 5; a byddant yn cyfrif neu'n dangos dau wrthrych. Byddant yn dechrau cymharu priodweddau ffisegol gwrthrychau. Byddant yn dangos diddordeb mewn safle a'r berthynas rhwng gwrthrychau. Byddant yn didoli ac yn paru gwrthrychau neu luniau trwy adnabod tebygrwydd.

Deilliant 2 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn defnyddio mathemateg mewn gweithgareddau bob dydd a gweithgareddau chwarae, gan ymateb yn briodol i eirfa allweddol a chwestiynau. Byddant yn ymuno ag eraill wrth gyfrif y rhifau rhwng 1 a 10 yn beiriannol. Byddant yn adnabod ac yn enwi'r rhifau rhwng 1 a 3, ac yn cyfrif hyd at dri o wrthrychau'n ddibynadwy. Byddant yn cofnodi rhifau trwy wneud marciau neu dynnu lluniau i ddechrau. Byddant yn dechrau datblygu dealltwriaeth o gyfatebiaeth un i un trwy baru gwahanol wrthrychau neu luniau. Byddant yn deall y cysyniad o 'un yn fwy'. Yn eu gweithgareddau chwarae, byddant yn datblygu ymwybyddiaeth o ddiben arian. Byddant yn dangos dealltwriaeth o eiriau, arwyddion a symbolau sy'n disgrifio maint a safleoedd. Byddant yn didoli gwrthrychau gan ddefnyddio un maen prawf, a byddant yn ymwybodol o nodweddion gwrthgyferbyniol.

Deilliant 3 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn defnyddio geiriau cyfarwydd mewn sefyllfaoedd ymarferol. Byddant yn gallu cyfrif y tu hwnt i 10 yn beiriannol, a byddant yn gallu dechrau cyfrif o rif bach penodol. Byddant yn gwneud symiau adio syml gan ddefnyddio rhifau rhwng 1 a 5, a byddant yn deall bod sero yn golygu dim. Byddant yn adnabod rhifolion rhwng un a naw ac yn ceisio eu cofnodi. Byddant yn deall y cysyniad o 'un yn llai'. Byddant yn cymharu ac yn trefnu dau neu ragor o wrthrychau drwy eu harsylwi'n uniongyrchol. Byddant yn dangos ymwybyddiaeth o amser mewn perthynas â'u gweithgareddau bob dydd. Byddant yn siarad am batrymau a dilyniannau ailadroddus syml, neu'n eu dangos, yn eu hadnabod a'u copïo. Wrth didoli, byddant yn gwybod pan fydd gwrthrych yn wahanol a phan na fydd yn perthyn i gategori cyfarwydd.

Deilliant 4 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn defnyddio mathemateg fel rhan annatod o weithgareddau'r ystafell ddosbarth. Byddant yn cyfrif, yn trefnu, yn adio ac yn tynnu rhifau wrth ddatrys problemau sy'n cynnwys hyd at 10 gwrthrych. Byddant yn cyfrif tuag ymlaen a thuag yn ôl mewn camau o wahanol faint, gan ddechrau o wahanol rifau. Byddant yn darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 10. Byddant yn defnyddio iaith bob dydd i gymharu a disgrifio safleoedd a phriodweddau siapiau rheolaidd, ac i drafod eu gwaith. Byddant yn cynrychioli eu gwaith gyda gwrthrychau neu lluniau. Byddant yn mesur ac yn trefnu gwrthrychau gan eu cymharu'n uniongyrchol, a byddant yn rhoi digwyddiadau yn eu trefn. Byddant yn ymwybodol o werth ddarnau arian gwahanol. Byddant yn adnabod, yn defnyddio ac yn llunio patrymau ailadroddus syml. Byddant yn didoli ac yn dosbarthu gwrthrychau, gan ddangos y maen prawf y byddant wedi'i ddefnyddio.

Deilliant 5 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn dewis y weithred fathemategol briodol wrth ddatrys problemau'n ymwneud ag adio neu dynnu rhifau. Byddant yn defnyddio strategaethau cyfrifo pen i ddatrys problemau'n ymwneud â rhifau, arian a mesuriadau. Byddant yn cyfrif setiau o wrthrychau'n ddibynadwy, a byddant yn galw ffeithiau rhifau rhwng 1 a 10 i gof er mwyn adio neu dynnu rhifau mwy o faint. Byddant yn gosod rhifau hyd at 100 yn eu trefn. Byddant yn adnabod ac yn defnyddio haneri a chwarteri mewn sefyllfaoedd ymarferol. Byddant yn defnyddio unedau ansafonol a safonol cyffredin i fesur hyd a màs. Byddant yn siarad am eu gwaith gan ddefnyddio iaith fathemategol gyfarwydd, a byddant yn cyflwyno eu gwaith gan ddefnyddio diagramau syml a symbolau. Byddant yn adnabod dilyniannau rhif. Byddant yn gwahaniaethu rhwng symudiadau syth a throeon; a byddant yn adnabod hanner troeon, chwarter troeon ac onglau sgwâr mewn troeon. Ar ôl casglu gwybodaeth, byddant yn cofnodi eu canlyniadau mewn rhestrau, tablau, diagramau a graffiau bloc syml. Byddant yn didoli gwrthrychau ac yn eu dosbarthu gan ddefnyddio mwy nag un maen prawf.

Deilliant 6 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn trefnu eu gwaith ac yn rhoi cynnig ar ddulliau gweithredu gwahanol. Byddant yn defnyddio gwerth lle mewn rhifau hyd at 1000 i lunio brasamcanion. Byddant yn datblygu rhagor o strategaethau pen ar gyfer adio a thynnu rhifau sy'n cynnwys o leiaf dau ddigid. Byddant yn galw tablau llusosi 2, 3, 4, 5 a 10 i gof er mwyn datrys problemau sy'n ymwneud â llusosi a rhannu rhifau cyfan, gan gynnwys y problemau hynny sy'n gadael gweddi. Byddant yn defnyddio unedau metrig safonol i fesur hyd, cynhwysedd, màs ac amser. Byddant yn defnyddio nodiant degol wrth gofnodi arian, a byddant yn adnabod rhifau negyddol yng nghyd-destun tymheredd. Byddant yn siarad am eu gwaith ac yn ei egluro. Byddant yn defnyddio ac yn dehongli symbolau a diagramau mathemategol.

Deilliannau ar gyfer Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Deilliant 1 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn archwilio gwrthrychau a deunyddiau mewn amgylcheddau agos iawn a chyfarwydd. Byddant yn aml yn gofyn y cwestiwn 'pam?' ac yn defnyddio geiriau, arwyddion neu symbolau i gyfleu eu harsylwadau. Byddant yn adnabod eu hunain a phobl gyfarwydd mewn lluniau/storiau, a byddant yn dangos gwybodaeth am drefniadau arferol pob dydd. O gael anogaeth gan oedolion, bydd y plant yn dechrau siarad am yr hyn y byddant yn ei greu, megis modelau a lluniau.

Deilliant 2 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn dechrau gosod gwrthrychau mewn categorïau syml. Byddant yn trin ystod o offer ac yn archwilio'r defnydd a wneir ohonynt. Byddant yn gallu gwneud rhai dewisiadau ynghylch deunyddiau/offer er mwyn cwblhau tasg benodol. Byddant yn ymateb i gwestiynau penagored am eu profiadau a byddant yn cynnig eu syniadau eu hunain gan ddefnyddio ymadroddion byr neu ddulliau eraill o gyfathrebu. Byddant yn dechrau cysylltu gweithgareddau penodol ag adegau arbennig o'r dydd/wythnos, a byddant yn dangos peth dealltwriaeth o'r presennol a'r gorffennol. Byddant yn meithrin hyder yn eu gallu i ddod o hyd i'w ffordd mewn amgylchedd cyfarwydd a byddant yn datblygu gwybodaeth am rolau pobl gyfarwydd. Byddant yn tyfu'n fwy hyderus wrth siarad am eu gwaith.

Deilliant 3 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn didoli gwrthrychau a deunyddiau yn ôl meini prawf penodol. Byddant yn cyfleu eu gwybodaeth gynyddol am eitemau a ddefnyddir bob dydd. Byddant yn dechrau cynnig syniadau'n annibynnol ynghylch ble y gellir dod o hyd i wybodaeth. Byddant yn dechrau cofnodi eu harsylwadau gan ddefnyddio symbolau/lluniau/arwyddion neu ymadroddion syml. Trwy ymholi, bydd y plant yn gallu adnabod newidiadau yn eu hamgylchedd/mewn deunyddiau/mewn nodweddion naturiol. Byddant yn gallu dilyn cyfarwyddiadau syml. Byddant yn dechrau deall treigl amser, gan gofio digwyddiadau pwysig yn y gorffennol a rhagweld digwyddiadau yn y dyfodol. Byddant yn gallu rhoi digwyddiadau yn eu trefn. Byddant yn cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol a byddant yn rhagweld trwy fyfyrion ynghylch profiadau blaenorol.

Deilliant 4 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn cyfleu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ynghylch nodweddion sylfaenol eu hardal leol, gwrthrychau, deunyddiau, pethau byw a digwyddiadau yn y presennol a'r gorffennol gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau. Byddant yn gwneud arsylwadau, yn gofyn ac yn ateb cwestiynau, ac yn dod o hyd i atebion gan ddefnyddio ffynonellau a deunyddiau dysgu. Byddant yn dechrau adnabod yr hyn a weithiodd a'r hyn na weithiodd. Byddant yn adnabod ac yn grwpio eitemau o wybodaeth. Byddant yn disgrifio eu lleoliad gan ddefnyddio termau cyffredin, a byddant yn tynnu llun map syml ac yn dilyn cyfarwyddiadau. Byddant yn adnabod nodweddion lleoedd penodol a'r modd y mae rhai ohonynt yn newid, ac yn mynegi eu barn yn eu cylch. Byddant yn mynegi eu barn am nodweddion lleoedd. Byddant yn dangos ymwybyddiaeth o'r gwahaniaeth rhwng y presennol a'r gorffennol yn eu bywyd eu hunain a bywydau pobl eraill. Byddant yn dangos eu hymdeimlad cynyddol o Gronoleg trwy ddefnyddio termau cyffredin sy'n ymwneud â threigl amser a rhoi rhai digwyddiadau a gwrthrychau yn eu trefn. Byddant yn gwybod rhannau o storïau am y gorffennol ac yn eu hailadrodd. Byddant yn dechrau adnabod portreadau o'r gorffennol. Byddant yn gwrando ar syniadau gwyddonol ac yn ymateb yn briodol iddynt. Byddant yn adnabod ac yn enwi ystod o anifeiliaid, gwrthrychau, deunyddiau, ffynonellau goleuni a ffynonellau sain cyffredin.

Deilliant 5 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn cyfleu eu harsylwadau a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth ynghylch gwahanol ardaloedd trwy ddisgrifio nodweddion naturiol a nodweddion a grëwyd gan ddyn, gan adnabod sut y mae rhai ohonynt yn newid a chydabod bod gweithredoedd pobl yn effeithio ar yr amgylchedd. Byddant yn dod o hyd i wybodaeth ar fap, byddant yn tynnu llun mapiau syml â symbolau, a byddant yn ymwybodol o'r cyfeiriadau ar gwmpawd. Byddant yn cyfleu eu hymdeimlad cynyddol o gronoleg trwy ddefnyddio termau sy'n ymwneud â threigl amser, rhoi digwyddiadau a gwrthrychau yn eu trefn, a gwahaniaethu rhwng agweddau ar eu bywydau eu hunain a chyfnodau yn y gorffennol. Byddant yn dangos gwybodaeth o agweddau ar y gorffennol a rhai o'r prif ddigwyddiadau a'r prif bobl y byddant wedi'u hastudio. Byddant yn dechrau sylweddoli bod rhesymau i egluro pam y gweithredodd pobl fel y gwnaethant yn y gorffennol, a bod modd portreadu'r gorffennol mewn gwahanol ffyrdd. Byddant yn dechrau dewis, trefnu a chyfleu eitemau o wybodaeth am y gorffennol. Byddant yn defnyddio offer syml i wneud digon o arsylwadau i'w galluogi i ddioli, grwpio a chymharu gwrthrychau, deunyddiau, pethau byw a digwyddiadau. Byddant yn disgrifio'r sail ar gyfer y grwpio gan ddefnyddio gwahaniaethau syml rhwng pethau byw, gwrthrychau, deunyddiau a ffenomena ffisegol. Byddant yn gofyn ac yn ateb cwestiynau, yn gwneud arsylwadau, yn casglu gwybodaeth ac yn dod o hyd i atebion gan ddefnyddio'r ffynonellau/deunyddiau dysgu a ddarperir. Byddant yn cyfleu gwybodaeth am y camau y mae angen eu cymryd i gynnal eu hymchwiliadau. Byddant yn defnyddio eu profiadau i ddatblygu eu syniadau eu hunain. Byddant yn myfyrio ac yn gwerthuso trwy ddisgrifio eu gwaith yn fanwl gan ddefnyddio geirfa sy'n gynyddol briodol. Byddant yn cynnig esboniadau ynghylch pam y gweithiodd neu na weithiodd rhywbeth.

Deilliant 6 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn cyfleu eu harsylwadau a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth ynghylch gwahanol ardaloedd trwy gymharu a thrwy gynnig rhai esboniadau ynghylch y nodweddion naturiol a geir ynddynt a'r nodweddion sydd ynddynt a grëwyd gan ddyn. Byddant yn sylweddoli bod pobl yn effeithio ar eu hamgylchedd mewn modd cadarnhaol a negyddol. Byddant yn defnyddio globau a mapiau i ddod o hyd i wybodaeth am leoedd. Byddant yn tynnu llun mapiau gan ddefnyddio allwedd a symbolau, a byddant yn deall cyfarwyddiadau. Byddant yn dangos eu dealltwriaeth o gronoleg trwy eu hymwybyddiaeth gynyddol o'r ffaith bod modd rhannu'r gorffennol yn wahanol gyfnodau a thrwy eu hadnabyddiaeth o ychydig o'r tebygrwydd a rhai o'r gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng y cyfnodau hynny. Byddant yn dangos gwybodaeth o rai o'r prif ddigwyddiadau, y prif bobl a'r prif newidiadau a astudiwyd. Byddant yn dechrau awgrymu rhai rhesymau dros y prif ddigwyddiadau a'r prif newidiadau, a'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â hwy. Byddant yn adnabod rhai o'r gwahanol ffyrdd a ddefnyddir i bortreadu'r gorffennol. Byddant yn defnyddio eu profiadau pob dydd i egluro'r gwahaniaethau rhwng pethau byw, deunyddiau a ffenomena ffisegol, a'r newidiadau sy'n digwydd iddynt. Gyda chymorth, byddant yn cysylltu eu gwaith dysgu â sefyllfaoedd cyfarwydd. Byddant yn siarad am eu syniadau a byddant yn gwneud rhagfynegiadau syml gan ddefnyddio eu profiad pob dydd. Gyda chymorth, byddant yn cynllunio'r dull y bwriedir ei ddefnyddio i wneud eu hymholiadau. Lle bo hynny'n briodol, byddant yn cytuno ar rai meini prawf syml ar gyfer llwyddiant. Byddant yn gofyn ac yn ateb ystod o gwestiynau, yn arsylwi, yn casglu ac yn cofnodi gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd, ac yn dod o hyd i atebion i'w hymchwiliadau. Byddant yn mynegi eu barn ac yn cynnig rhesymau i gefnogi'r farn honno, a byddant yn cydnabod bod gan bobl safbwyntiau gwahanol. Byddant yn cynnig esboniad syml ynghylch eu casgliadau, sydd wedi'i seilio ar eu profiadau pob dydd, a byddant yn awgrymu beth y gallent fod wedi'i wneud yn wahanol er mwyn gwella eu casgliadau. Byddant yn adnabod yr hyn a weithiodd, yr hyn a oedd yn gwneud synnwyr, yr hyn na weithiodd a'r hyn nad oedd yn gwneud synnwyr, a'r rhesymau dros hynny.

Deilliannau ar gyfer Datblygiad Corfforol

Deilliant 1 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn datblygu rheolaeth gynyddol ar symudiadau corfforol mawr. Gallant ymdopi â rhwystrau mawr. Byddant yn gallu neidio a glanio yn ddiogel, a gallant daflu a derbyn gwrthrych. Byddant yn perfformio mwy nag un weithred ac yn symud mewn gwahanol ffyrdd. Byddant yn adnabod ac yn defnyddio gwahanol ddarnau o offer wrth chwarae gydag eraill. Byddant yn gallu trin ac archwilio deunyddiau drwy eu tynnu, eu hymestyn a'u gwasgu. Gall y plant adeiladu tŵr sy'n cynnwys chwech o flociau.

Deilliant 2 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn dangos gwell cydbwysedd a sgiliau cydsymud. Byddant yn chwarae ar eu pen eu hunain, gyda phartner neu mewn grŵp bach. Byddant yn gwrando ar gyfarwyddiadau, a gallant ddechrau a rhoi'r gorau i wneud rhywbeth pan gânt orchymyn i wneud hynny. Byddant yn dilyn rheolau syml sy'n gysylltiedig â gêm. Byddant yn chwarae â gwahanol ddarnau o offer ac yn defnyddio cyfarpar isel wrth ymarfer eu sgiliau teithio, neidio a glanio. Byddant yn gallu dringo dros rwystrau a phedlo ar feiciau tair olwyn, beiciau cyffredin a cheir sy'n briodol o ran maint. Gallant sefyll ar un droed am ennyd. Byddant yn dechrau torri defnydd â siswrn. Gall y plant adeiladu tŵr sy'n cynnwys naw neu ddeg o frics, a byddant yn dechrau dal creon/pensil mawr â'u bysedd a'u bawd.

Deilliant 3 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn dangos sgiliau rheoli a chydsymud cynyddol mewn amrywiaeth o weithgareddau. Byddant yn gwrando ar gyfarwyddiadau ac yn ymateb iddynt. Byddant yn archwilio tasgau syml gan ddefnyddio amrywiaeth o offer am gyfnodau hwy. Byddant yn gweithio'n ddiogel mewn gofod. Byddant yn perfformio sgiliau corfforol syml ac yn gwella'r hyn y byddant yn ei wneud. Byddant yn gallu neidio i lawr o wrthrychau isel, a gallant daflu a derbyn gwrthrych dros bellter byr. Byddant yn eithaf cymwys o safbwynt rheoli beiciau a cheir a rhedeg o gwmpas rhwystrau. Gall y plant dorri papur yn ddau ddarn gan ddefnyddio siswrn, a gallant linyngu gleiniau ar lasyn. Byddant yn gallu trin adnoddau priodol a'u ffitio gyda'i gilydd. Byddant yn gafael mewn pensil/creon yn aeddfed gan ddangos rheolaeth dda. Gallant dynnu llun person sydd â phen, coesau a chorff.

Deilliant 4 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn gallu sefyll a rhedeg ar flaenau eu traed. Gallant neidio tuag yn ôl a hercian tuag ymlaen ar un droed. Gallant gerdded a chicio pêl neu gallant redeg a chicio pêl. Byddant yn chwarae ac yn symud mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan ddatblygu'r modd y byddant yn perfformio sgiliau syml, a hynny ar eu pen eu hunain i ddechrau ac yna gyda phartner. Byddant yn defnyddio'r gweithredoedd sylfaenol sy'n ymwneud â theithio, neidio a glanio, sicrhau cydbwysedd a sefyll yn llonydd yn eu gweithgareddau chwarae a'u gweithgareddau gymnasteg. Byddant yn gwrando ar gyfarwyddiadau ac yn ymateb yn barod iddynt. Byddant yn dangos ymwybyddiaeth gynyddol o'r pellter y dylid ei adael rhyngddynt hwy a phobl eraill er mwyn gweithio'n ddiogel mewn gwahanol amgylcheddau. Byddant yn gwella'r hyn y byddant yn ei wneud, a hynny weithiau trwy wyllo eraill a'u helpu i wella. Byddant yn sylweddoli sut y mae eu hanadl yn newid a sut y byddant yn ymddangos ac yn teimlo wrth wneud ymarfer corff. Bydd y plant yn gallu clymu cwlwm unigol a gallant dorri siapiau syml gan ddefnyddio siswrn. Byddant yn gallu creu modelau gan ddefnyddio cynlluniau parod. Mae ganddynt reolaeth dda ar bensiliau, creonau a brwshis, a byddant yn tynnu llun person sydd â phen, coesau, corff, llygaid, trwyn a cheg.

Deilliant 5 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn tyfu'n gryfach ac yn fwy ystwyth. Byddant yn gallu neidio oddi ar gyfarpar yn hyderus a gallant fynd ar feic dwy olwyn. Byddant yn gallu bowsio pêl ag un llaw a gallant ddal pêl â dwy law. Bydd y plant yn archwilio gwahanol weithgareddau ac yn symud â rheolaeth gorfforol a hyder cynyddol. Byddant yn ymarfer er mwyn gwella eu sgiliau a byddant yn dechrau cysylltu gweithredoedd, megis neidio a glanio neu ddal a thaflu. Byddant yn gweithio'n ddiogel gydag eraill wrth ddefnyddio offer a chyfarpar, a byddant yn cymryd peth cyfrifoldeb am osod yr offer a'r cyfarpar yn eu lle a'u rhoi i gadw. Byddant yn siarad am yr hyn y byddant hwy ac y mae eraill wedi'i wneud, a byddant yn cynnig awgrymiadau syml ynghylch sut y gellir gwella perfformiad. Byddant yn adnabod ac yn disgrifio'r newidiadau sy'n digwydd i'w cyrff wrth iddynt wneud gwahanol fathau o weithgarwch. Byddant yn gallu torri lluniau a siapiau anodd allan. Bydd y modd y byddant yn dal offer ysgrifennu yn debyg i'r modd y byddai oedolyn yn gwneud hynny.

Deilliant 6 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn defnyddio ac yn datblygu eu sgiliau gan ddangos gwell rheolaeth a sgiliau cydsymud. Yn ystod symudiadau gymnasteg, bydd y plant yn dangos gwell tyndra yn eu cyhyrau ac yn creu siapiau cliriach â'u cyrff, a bydd eu symudiadau cysylltiedig yn dechrau dangos peth rhwyddineb. Byddant yn cydweithio i ddatrys problemau wrth weithio gydag eraill. Byddant yn adnabod y gwahanol egwyddorion sylfaenol sy'n sail i weithgareddau cystadleuol ac anturus. Byddant yn cynnal gweithgaredd dros gyfnodau priodol. Byddant yn gwyllo perfformiad ei gilydd ac yn dweud beth sy'n dda amdano a'r hyn a allai fod yn well, gan ddefnyddio geiriau allweddol sy'n gysylltiedig â'u gweithgaredd. Byddant yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon i gynllunio sut i wella eu sgiliau eu hunain, a byddant yn dechrau gofyn cwestiynau perthnasol er mwyn gwella a gwneud cynnydd. Byddant yn disgrifio'r modd y mae ymarfer corff yn effeithio ar y corff a byddant yn cynnig rhesymau i egluro pam y mae gweithgarwch corfforol dyddiol yn dda iddynt. Byddant yn fwy medrus o safbwynt eu sgiliau ysgrifennu, a byddant yn tynnu llun pobl sydd â phen a chorff (coesau, breichiau, dwylo, bysedd).

Deilliannau ar gyfer Datblygiad Creadigol

Deilliant 1 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn mwynhau trin ac archwilio deunyddiau/adnoddau ac ymchwilio iddynt. Byddant yn gallu dangos peth rheolaeth wrth wneud marciau a phatrymau gan ddefnyddio eu bysedd ac offer. Byddant yn archwilio ystod o ffynonellau sain ac yn arbrofi â chynhyrchu seiniau, gan gynnwys ysgwyd, taro a chrafu. Byddant yn dechrau adnabod cerddoriaeth gyfarwydd a phatrymau syml, a byddant yn ymateb trwy ymuno neu symud â'r gerddoriaeth, gan efelychu symudiadau, seiniau a geiriau yn fras. Byddant yn dechrau defnyddio symudiadau cyferbyniol sy'n ymwneud â theithio, neidio, glanio ac aros yn llonydd wrth iddynt symud yn ddychmygus.

Deilliant 2 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn arbrofi ag ystod o ddeunyddiau/adnoddau, yn ymchwilio iddynt ac yn eu harchwilio. Byddant yn gallu cynhyrchu marciau, a byddant yn dechrau defnyddio llinellau a siapiau i greu symbolau a delweddau. Byddant yn cydosod deunyddiau i greu arteffactau y mae ystyr yn perthyn iddynt. Byddant yn ymateb i gwestiynau penagored am eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill. Bydd y plant yn efelychu rhythmau a phatrymau cerddorol syml, gan greu rhythmau a phatrymau tebyg yn fras o safbwynt dynameg neu elfennau cerddorol eraill. Byddant yn archwilio ystod o ffynonellau sain ac yn arbrofi â chynhyrchu sain o wahanol ansawdd. Byddant yn adnabod seiniau cyfarwydd trwy wrando ar gerddoriaeth a chreu cerddoriaeth. Byddant yn dehongli gwahanol symbyliadau megis cerddoriaeth, geiriau a lluniau trwy symud mewn gwahanol ffyrdd, creu siapiau amrywiol â'u cyrff a newid cyfeiriad.

Deilliant 3 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn ehangu eu gwybodaeth am nodweddion ystod o ddeunyddiau/adnoddau trwy archwilio ac ymchwilio. Gallant ddefnyddio ystod o offer â chywirdeb cynyddol, a byddant yn gallu creu delweddau a symbolau o blith ystod o linellau, marciau a siapiau. Byddant yn cydosod ac yn cyfuno deunyddiau i greu arteffactau ystyrllon. Byddant yn mynegi barn am eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill, a byddant yn dechrau cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol trwy fyfyrion ynghylch gwaith dysgu blaenorol. Bydd y plant yn cydweithio ag eraill yn gynyddol wrth weithio. Bydd y plant yn perfformio caneuon actol a hwiangerddi syml gydag eraill, gan greu perfformiadau tebyg yn fras o safbwynt dynameg neu elfennau cerddorol eraill. Byddant yn cyfrannu at storïau sain trwy ddewis y seiniau y bwriedir eu defnyddio. Byddant yn dechrau dangos ymwybyddiaeth o rai elfennau cerddorol trwy greu a gwrando ar gerddoriaeth. Byddant yn mynegi eu syniadau a'u hwyliau, megis hapusrwydd neu dristwch, trwy gyfrwng symudiadau syml y gallant eu hailadrodd, gan greu siapiau amrywiol â'u cyrff a dangos newidiadau o ran lefel a chyfeiriad.

Deilliant 4 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn defnyddio deunyddiau/adnoddau ac offer i greu delweddau ac arteffactau creadigol sy'n arddangos sgil cynyddol, gan arbrofi'n ymarferol ac yn ddychmygus er mwyn cofnodi'r syniadau a'r teimladau sy'n deillio o'u harsylwadau, eu profiad a'u dychymyg. Bydd y plant yn dechrau ffurfio cysylltiadau rhwng eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill, a defnyddio sgiliau cyfathrebu sylfaenol i gyfleu eu dealltwriaeth. Bydd y plant yn canu gan eirio'n glir a pherfformio'n uchel neu'n dawel yn ôl y cyfarwyddyd a gânt. Byddant yn clapio neu'n tapio curiad cyson gan gadw amser ag eraill. Ar ôl archwilio amrywiaeth o ffynonellau sain, bydd y plant yn dewis seiniau addas wrth ymateb i symbyliad penodol. Byddant yn adnabod seiniau a cherddoriaeth ac yn ymateb iddynt, a hynny o safbwynt elfennau megis dynameg, cyflymder, hyd a soniaredd. Byddant yn mynegi eu syniadau trwy gyfrwng symudiadau sy'n amrywio o ran siâp, rhythm, a dull teithio, gan ddefnyddio gwahanol rannau o'r corff, cyfnodau o lonyddwch a chyfnodau o gadw cydbwysedd. Byddant yn dangos ymwybyddiaeth gynyddol o'r pellter y mae angen ei adael rhyngddynt ac eraill er mwyn symud yn ddiogel â rheolaeth gynyddol.

Deilliant 5 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn defnyddio ystod o ddeunyddiau ac offer i greu delweddau ac arteffactau, a byddant yn archwilio nodweddion gweledol, cyffyrddol a synhwyrdd mewn modd ymarferol a dychmygus, gan wneud newidiadau i'w gwaith lle byddant yn credu bod angen gwneud hynny. Byddant yn cofnodi delweddau a syniadau sy'n deillio o arsylwadau, profiad, y cof a'r dychmyg gan ddefnyddio ystod o adnoddau y byddant wedi'u casglu a'u trefnu. Bydd y plant yn adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng eu gwaith ymarferol eu hunain a gwaith ymarferol pobl eraill; byddant yn defnyddio sgiliau cyfathrebu i ddisgrifio'r hyn y byddant yn ei deimlo neu'n ei feddwl am y tebygrwydd a'r gwahaniaethau hynny. Bydd y plant yn canu caneuon sy'n cynnwys ystod gyfyngedig o nodau, gan gadw mewn tiwn yn gyffredinol. Byddant yn chwarae patrwm syml ar offeryn taro gan gadw amser â churiad cyson. Byddant yn dewis ac yn trefnu seiniau wrth ymateb i symbyliad penodol ac yn creu patrymau melodig byr, gan ddangos peth rheolaeth ar elfennau cerddorol. Byddant yn gwahaniaethu'n fras rhwng elfennau cerddorol, a byddant yn defnyddio termau syml i ddisgrifio sut y caiff yr elfennau hynny eu defnyddio at ddibenion mynegiannol. Byddant yn dechrau cysylltu ac ailadrodd patrymau symud syml a gwella eu sgiliau fel bod eu symudiadau'n gliriach o ran siâp. Caiff y syniadau, yr hwyliau a'r teimladau a ddefnyddir yn eu gweithgareddau dawnsio eu cyfleu'n glir i bartner neu grŵp.

Deilliant 6 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn defnyddio ystod o ddeunyddiau/adnoddau, offer a thechnegau i gyflawni gwahanol ganlyniadau, a byddant yn arbrofi â nodweddion gweledol, cyffyrddol a synhwyraidd gan wneud newidiadau addas i'r gwaith lle byddant yn gweld bod angen addasu. Byddant yn dewis ac yn cofnodi'r syniadau a'r teimladau sy'n deillio o'u harsylwadau, eu profiad a'u dychymyg trwy ddarlunio a defnyddio dulliau eraill, gan ddewis o blith ystod o adnoddau y byddant wedi'u casglu a'u trefnu yn sail i'w gwaith. Bydd y plant yn canu caneuon mewn tiwn ac yn rheoli eu hanadlu er mwyn gwella eu perfformiad. Byddant yn chwarae rhan offerynnol gan ddefnyddio ystod gyfyngedig o nodau. Byddant yn gweithio gydag eraill i greu cyfansoddiadau sydd â siâp cerddorol syml, gan adolygu eu syniadau lle bo angen. Byddant yn gwahaniaethu rhwng elfennau cerddorol ac yn trafod pa mor effeithiol y caiff yr elfennau hynny eu defnyddio. Mae eu symudiadau'n dechrau dangos sgiliau cydsymud, rhwyddineb a rheolaeth, a hynny o ganlyniad i well tyndra yn y cyhyrau. Byddant yn ymateb i symbyliadau amrywiol, gan gynnwys partner, a byddant yn cynllunio patrymau symud syml. Byddant yn ailadrodd, â pheth cywirdeb, symudiadau patrymog sydd i'w gweld mewn dawnsiau traddodiadol.

Cydnabyddiaethau

Hoffai'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) ddiolch i'r holl blant, ymarferwyr, rhieni, gofalwyr, lleoliadau, ysgolion a sefydliadau eraill sydd wedi helpu i gynhyrchu'r ddogfen hon, gan gynnwys:

St Asaph V.P. Infants, Sir Ddinbych

Ysgol Bro Sannan, Caerffili

Ysgol Bro Tryweryn, Gwynedd

Ysgol Cenarth, Ceredigion

Ysgol Deganwy, Conwy

Ysgol Ffairfach, Sir Gaerfyrddin

Ysgol Ffridd y Llyn, Gwynedd

Ysgol Gynradd Llanfair Caereinion, Powys

Ysgol Gynradd Niwbwrch, Ynys Môn

Ysgol Gymraeg Castell-nedd, Castell-nedd

Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd, Caerdydd

Ysgol Gymuned Aberporth, Ceredigion

Ysgol Iolo Morganwg, Bro Morgannwg

Ysgol y Dderi, Ceredigion

Ysgol y Gwernant, Sir Ddinbych

Ysgol y Llys, Sir Ddinbych.

Hoffai APADGOS ddiolch i'r canlynol am roi caniatâd i atgynhyrchu deunydd â hawlfraint yn y canllawiau hyn:

Rydyn Ni'n Mynd i Hela Arth Testun © 1993 Michael Rosen;
Darluniau © 1993 Helen Oxenbury, Trosiad Cymraeg © 1998 Mair
Treharne (Uned Iaith Genedlaethol Cymru CBAC, 1993)
ISBN 1860853579 (DVD)

Bili Broga gan Edwina Morris a Gwyneth Parry (Gwasg Taf, 1996)
ISBN 9780948469657 (DVD)

Cyfres Moli gan Lynne B Jones (Gwasg Carreg Gwalch, 2005)
ISBN 9781845270070 (DVD)

Bydd yn ofalus Ceri Ann gan Loreen Williams (Gwasg Gomer, 1993)
ISBN 1859020763 (DVD)

Mae gen i gân gan Leah Owen a Selwyn Griffith (Curiad, 1995)
ISBN 1897664702 (DVD)